

Buddsoddiad Medr ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026/27

Dyddiad: 13 Mai 2026

Cyfeirnod: Medr/2026/16

At: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch
Penaethiaid colegau addysg bellach
Cyfarwyddwyr Addysg
Penaethiaid chweched dosbarth mewn ysgolion
Arweinwyr dysgu oedolion yn y gymuned mewn awdurdodau lleol
Deiliaid contract prentisiaeth

Ymateb erbyn: 15 Medi 2026 ar gyfer darparwyr sy'n bwriadu aiddosbarthu
credydau wedi'u cyllido ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser
(paragraff 122)

Rhagor o wybodaeth:

Enw: Dr Gareth Lanagan
E-bost: BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru

Enw: Hannah Falvey
E-bost: YstadegauAU@medr.cymru

Crynodeb:

Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi buddsoddiad Medr ar y cyfan ar gyfer blwyddyn
academaidd 2026/27 gan gynnwys dyraniadau darparwyr unigol ar gyfer yr holl
fuddsoddiad craidd mewn addysg drydyddol.



Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Cyflwyniad | 3 |
| Dosbarthiad y gyllideb ar y cyfan | 5 |
| Cyllideb blwyddyn ariannol 2026-27 | 5 |
| Deillio cyllideb blwyddyn academiaidd 2026/27 | 5 |
| Dosbarthu cyllidebau wedi'u clustnodi | 6 |
| Prentisiaethau iau | 6 |
| Menter ac Entrepreneuriaeth | 6 |
| Hybiau REACH | 6 |
| Diwylliant – darpariaeth conservatoire cerddoriaeth a drama sy'n seiliedig ar berfformio (Cyllideb Diwylliant) | 7 |
| Estyn | 7 |
| Dyrannu cyllideb y flwyddyn ariannol | 7 |
| Cyfanswm buddsoddiad ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026/27 | 8 |
| Dyraniadau craidd: darpariaeth prentisiaethau | 9 |
| Crynodeb o ddosbarthu'r gyllideb prentisiaethau wedi'i chlustnodi..... | 9 |
| Cyfraniad tuag at gost dysgwyr sy'n parhau (a gyllidir trwy ddyraniad ychwanegol yn ystod y flwyddyn o £4m ym mlwyddyn academiaidd 2025/26 i ategu cynnydd tuag at y targed yn y Rhaglen Lywodraethu o 100,000 o brentisiaethau) | 10 |
| Staff a ariennir â chyllid y rhaglen | 10 |
| Gradd-brentisiaethau | 10 |
| Prentisiaethau a Rennir ac â Chymorth a'r Cynllun Cymhelliant Cyflogwyr a CDY..... | 10 |
| Datblygiadau prentisiaeth | 11 |
| Adolygu a datblygu fframweithiau prentisiaethau | 11 |
| Paratoi ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd..... | 11 |
| Dyraniadau craidd: darpariaeth chweched dosbarth awdurdodau lleol | 13 |
| Cynnydd yn y gyfradd fesul uned (chweched dosbarth a gynhelir gan awdurdodau lleol, grant dysgu cymunedol, a sefydliadau addysg bellach)..... | 13 |
| Dyraniadau arfaethedig awdurdodau lleol ym mlwyddyn academiaidd 2026/27 | 13 |
| Dyraniadau craidd: grant dysgu cymunedol (CLG) awdurdodau lleol | 15 |
| Buddsoddiad i gefnogi cynnydd mewn cyfranogiad..... | 16 |
| Dyraniadau craidd: Darpariaeth addysg bellach (amser llawn, rhan-amser, Cymorth Dysgu Ychwanegol a Chronfeydd Ariannol Wrth Gefn) | 17 |
| Darpariaeth addysg bellach (amser llawn, ran-amser) | 17 |
| Buddsoddiad amser llawn | 17 |
| Buddsoddiad rhan-amser | 17 |
| Dyraniadau darpariaeth AB ym mlwyddyn academiaidd 2026/27 | 18 |
| Buddsoddiad i gefnogi cynnydd mewn cyfranogiad..... | 18 |
| Dyraniadau craidd: darpariaeth addysg uwch | 20 |
| Buddsoddiad ar gyfer ymchwil ac arloesi..... | 20 |
| Ymchwil o Ansawdd (QR)..... | 20 |
| Hyfforddiant ymchwil ôl-radd (PGR)..... | 20 |
| Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF)..... | 21 |
| Buddsoddiad mewn addysgu | 21 |

| | |
|--|-----------|
| Buddsoddiad premiwm – darpariaeth israddedig amser llawn (FT UG)..... | 22 |
| Buddsoddiad mewn addysgu sy'n seiliedig ar greydau – darpariaeth israddedig ran- amser (PT UG)..... | 23 |
| Buddsoddiad premiwm – darpariaeth israddedig ran-amser..... | 24 |
| Buddsoddiad premiwm – pob dull a lefel | 25 |
| Buddsoddiad y pen – pob dull a lefel a addysgir | 25 |
| Buddsoddiad mewn addysgu ar y cyfan | 25 |
| Hepgor ffioedd rhan-amser..... | 25 |
| Buddsoddiad strategol yn y Brifysgol Agored yng Nghymru | 26 |
| Buddsoddiad yn elfen berfformio Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru..... | 26 |
| Buddsoddiad mewn ymchwil ac addysgu ar y cyfan..... | 26 |
| Lleoedd meddygol ychwanegol | 27 |
| Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) sy'n arwain at statws athro cymwysedig (SAC) – buddsoddiad mewn lleoliadau | 27 |
| Cyllidebau wedi'u targedu | 29 |
| Addysg bellach (Y gronfa Cymorth a Llesiant Dysgwyr)..... | 29 |
| Buddsoddiad Cymorth Dysgu Ychwanegol..... | 29 |
| Addysg bellach (Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn)..... | 30 |
| Urddas mislif | 31 |
| Iechyd meddwl a llesiant..... | 32 |
| Adferiad a Chynnydd Dysgwyr (LRP)..... | 33 |
| Mynediad a llesiant | 34 |
| Cyflogadwyedd a sgiliau | 35 |
| Ymchwil ac arloesi | 35 |
| Dysgwyr a'r gweithlu | 37 |
| Data a thechnoleg..... | 38 |
| Cyllideb Rhaglen Ganolog | 38 |
| Datblygiadau strategol Medr..... | 38 |
| Telerau a thalu grantiau a ffynonellau data | 39 |
| Telerau grant..... | 39 |
| Prentisiaethau | 39 |
| Darpariaeth awdurdodau lleol (chweched dosbarth mewn ysgolion a dysgu oedolion yn y gymuned) | 39 |
| Darpariaeth addysg bellach..... | 39 |
| Darpariaeth addysg uwch..... | 39 |
| Ffynonellau data | 40 |
| Chweched dosbarth awdurdodau lleol: | 40 |
| Dysgu Oedolion yn y Gymuned awdurdodau lleol: | 40 |
| Colegau addysg bellach: | 40 |
| Addysg uwch:..... | 40 |
| Asesu effaith ein polisïau..... | 41 |
| Tablau crynhoi ac atodiadau | 42 |

Cyflwyniad

1. Sefydlwyd Medr gan [Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\)](#), a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2022 ac a ddaeth yn weithredol ar 1 Awst 2024. Mae'r Ddeddf yn rhoi ystod o bwerau i Medr gan gynnwys ei allu i gyllido a rheoleiddio addysg drydyddol, ymchwil ac arloesi yng Nghymru.
2. Fe gyhoeddodd ni ein [Cynllun Strategol](#) cyntaf ym mis Mawrth 2025, sy'n disgrifio ein nodau ar gyfer addysg drydyddol, ymchwil ac arloesi. Mae'r uchelgeisiau hyn wedi'u bwrw mewn ymrwymadau sefydlu sydd â gorwel o ddwy flynedd ar gyfer eu cyflawni, ac ymrwymadau twf sydd â gorwel o bum mlynedd ar gyfer eu cyflawni. Fel rhan o'n hymrwymadau sefydlu, fe gyhoeddodd ni ein fframwaith rheoleiddio newydd ar 1 Ebrill 2026, sy'n berthnasol i ddarparwyr ar draws y sector addysg drydyddol yng Nghymru. Mae buddsoddiad a nodir yn y cyhoeddiad hwn wedi'i osod yng nghydestun ein nodau strategol a'n fframwaith rheoleiddio newydd.
3. Mae'r [Fframwaith Rheoleiddio](#) yn dwyn ynghyd y prif elfennau y mae Medr yn eu defnyddio i oruchwylio'r sector. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - yr hyn y mae'n rhaid i ddarparwyr ei fodloni i ymuno â'r Gofrestr o ddarparwyr addysg uwch
 - yr amodau sy'n berthnasol i ddarparwyr yr ydym yn eu rheoleiddio neu'n eu cyllido
 - trefniadau ar gyfer meysydd megis Cynlluniau Ffioedd a Mynediad a Dynodi Cysiau'n Benodol.

Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn ein helpu i ddeall a yw darparwyr yn ateb gofynion y fframwaith.
4. Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi ein buddsoddiad ar y cyfan i ddarparwyr addysg drydyddol a gyllidir gan Medr ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys dyraniadau darparwyr unigol ar gyfer yr holl fuddsoddiad craidd a rhai cyllidebau wedi'u targedu, lle y bônt ar gael.
5. Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys yr holl grantiau craidd a gaiff eu llywio gan fformiwla. Lle y bo'n bosibl, mae grantiau a ddyrennir trwy gyllidebau wedi'u targedu, a all fod yn amodol ar strategaeth neu gynllun gwariant penodol, wedi'u cynnwys hefyd. Bydd cyhoeddiadau pellach yn darparu manylion dyraniadau a chanllawiau, lle y bo'n ofynnol, ar gyfer ffrydiau buddsoddi penodol.
6. Mae dyraniadau Medr sydd y tu allan i'r flwyddyn ariannol hon wastad yn amodol ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, ond rydym yn awyddus i ddarparu ymrwymiad mor gadarn â phosibl i ddarparwyr y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol hon lle bynnag y bo'n bosibl. Rydym wedi dyrannu gyda'r ymrwymiad hwn mewn cof ar gyfer blwyddyn ariannol 2027-28.
7. Bydd y pwerau sy'n ein galluogi i gyllido addysg drydyddol ac ymchwil yn newid wrth i'r ddeddfwriaeth a sefydlodd Medr gael ei rhoi ar waith yn raddol. Felly caiff y penderfyniadau buddsoddi sydd wedi'u cynnwys yn y papur hwn eu gwneud ar sail darnau lluosog o ddeddfwriaeth. Galluogir Medr i gyllido darpariaeth addysg uwch, a gweithgareddau ymchwil ac arloesi, trwy bwerau a gynhwysir yn Adran 65 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

8. Hyd yma, mae Medr wedi arfer rhai swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru trwy'r trefniant adran 83 sydd gennym yn ei le – yn benodol adrannau 34-36 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, ac adrannau 14 ac 16 Deddf Addysg 2002. Fodd bynnag, o 1 Ebrill 2026, bydd Medr yn cyllido addysg bellach a hyfforddiant, chweched dosbarth mewn ysgolion a phrentisiaethau trwy bwerau a nodir yn adrannau 97 a 101 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Mae un o'r dyletswyddau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Medr ymgynghori ynghylch datganiad polisi buddsoddi, a'i gyhoeddi wedi hynny, sy'n nodi egwyddorion ar gyfer buddsoddi mewn addysg drydyddol, ymchwil ac arloesi. Mae hyn i fod i ddigwydd ym mis Gorffennaf 2026.
9. Ar wahân, rydym yn rheoleiddio sefydliadau sydd â Chynlluniau Ffioedd a Mynediad cymeradwy dan bwerau a nodir yn Neddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. O ganlyniad i ddod yn rheoleiddiedig, bydd cyrsiau israddedig amser llawn sefydliadau'n cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Mae cyrsiau israddedig ac ôl-radd rhan-amser yn cael eu dynodi ar gyfer sefydliadau a Gyllidir yng Nghymru. Ar gyfer cyrsiau nad ydynt yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, rydym yn gweinyddu proses dynodi'n benodol sy'n caniatáu i ddarparwyr gael dynodi cyrsiau fesul achos unigol. **Nid yw'r** ddwy broses hyn sy'n arwain at ddynodi cyrsiau gan Lywodraeth Cymru'n ymwneud â'n swyddogaethau i weinyddu cyllid i sefydliadau. Gan hynny, nid yw bod yn rheoleiddiedig neu fod â chysiau wedi'u dynodi ynddo'i hun yn golygu bod darparwyr yn cael yr arian yr ydym ni'n ei weinyddu ac yr ydym wedi nodi'r dyraniadau ar ei gyfer yn y cyhoeddiad hwn. Bydd ein trefniadau rheoleiddiol yn newid o 1 Awst 2026, gyda dynodiad cyrsiau at ddibenion cymorth i fyfyrwyr addysg uwch (AU) yn gysylltiedig â chofrestru gyda Medr. Bydd angen i ddarparwyr AU gydymffurfio â'r Amodau Cofrestru a nodir yn y Fframwaith Rheoleiddio. Mae'r Fframwaith hefyd yn cynnwys Amodau Cyllid a fydd yn berthnasol ar draws y sector addysg drydyddol a hyfforddiant.
10. Ar gyfer darparwyr addysg uwch (AU) yng Nghymru sy'n cael buddsoddiad AU craidd, nid yw buddsoddiad gan Medr yn cynnwys taliadau ar gyfer benthyciadau a grantiau ffioedd dysgu na thaliadau cymorth i fyfyrwyr eraill. Gweinyddir y rhain gan Lywodraeth Cymru trwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Nid yw darparwyr prentisiaethau, colegau a chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yn cael ffioedd dysgu ac eithrio ar gyfer darpariaeth AU; y buddsoddiad craidd gan Medr yw'r mwyafrif o'u hincwm.
11. Mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu cyllid i Medr yn flynyddol ar sail blwyddyn ariannol rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth. Mae Medr yn buddsoddi yn y mwyafrif o sefydliadau a darparwyr cymwys ar sail blwyddyn academaidd rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf. Yn y ddogfen hon, **dynodir Blynyddoedd Ariannol â '-' a Blynyddoedd Academaidd â '/'** e.e. 2026-27 yw'r flwyddyn ariannol a 2026/27 yw'r flwyddyn academaidd.
12. Lle defnyddir cromfachau mewn tablau ariannol, mae'r rhain yn dynodi gwerthoedd negyddol.
13. Mae ein [llythyr cyllid](#) wedi'i gadarnhau'n amlgu mai **£1,005.008m** yw ein cyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27. Mae hyn yn gynydd o £29.6589m (3.04%) o'i gymharu â'r gyllideb derfynol, gan gynnwys dyraniadau yn ystod y flwyddyn a gafwyd ym mlwyddyn ariannol 2025-26 sydd wedi'u hymgorffori yn y llinell sylfaen, o **£975.349m**. Gan gynnwys cyfalaf, £1,018,508,000 yw cyfanswm cyllideb Medr ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27.

14. Nid yw'r dyraniadau yn y papur hwn yn ystyried unrhyw addasiadau cyllido posibl yn ystod y flwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 a allai gael eu cymhwysu gan Lywodraeth Cymru. Bydd unrhyw addasiadau cyllido o'r fath yn arwain at ddiwygio'r dyraniadau unigol.

Dosbarthiad y gyllideb ar y cyfan

Cyllideb blwyddyn ariannol 2026-27

15. Cafodd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 ei phennu'n derfynol ym mis Mawrth 2026. Darperir cymhariaeth lawn rhwng blynyddoedd ariannol isod.
16. Mae cymariaethau rhwng blynyddoedd academaidd wedi cael eu darparu mewn tablau yn nes ymlaen.

| Maes o fewn y gyllideb | Cyllideb adnoddau net blwyddyn ariannol 2025-26 £ miliwn | Cyllideb adnoddau net blwyddyn ariannol 2026-27 £ miliwn | Amrywiad £ miliwn |
|--|---|---|----------------------|
| Addysg | 804.081 | 848.687 | 44.606 |
| Eitemau wedi'u clustnodi a gynhwysir yn y gyllideb addysg uchod: | | | |
| Prentisiaethau iau 14-16 | 0.600 | 1.000 | 0.400 |
| Menter ac Entrepreneuriaeth | 0.360 | 0.360 | 0 |
| Estyn | 0 | 2.056 | 2.056 |
| REACH | 0 | 0.400 | 0.400 |
| Cyllideb Prentisiaethau wedi'i chlustnodi | 143.277 | 150.535 | 7.258 |
| Diwylliant – Darpariaeth conservatoire cerddoriaeth a drama sy'n seiliedig ar berfformio | 1.970 | 1.970 | 0 |
| Dyraniadau yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru | 27.031 | 0 | (27.031) |
| Cyllideb referiw net | 975.349 | 1,005.008 | 29.659 |

Deillio cyllideb blwyddyn academaidd 2026/27

17. Wrth ddsbarthu cyllideb blwyddyn ariannol 2026-27 dylid nodi bod dyraniadau i ddarparwyr addysg drydyddol ac ymchwil ar sail blwyddyn academaidd yn bennaf. Felly, rhaid i gyllideb blwyddyn ariannol 2026-27 roi ystyriaeth yn gyntaf i'r gofyniad arian parod hysbys ar gyfer yr hyn sy'n weddill o flwyddyn academaidd 2025/26 (rhwng 1 Ebrill a 31 Gorffennaf 2026).

Dosbarthu cyllidebau wedi'u clustnodi

18. Ni fanylir ar wahân ar gostau gweithredu Medr yng nghyllideb Llywodraeth Cymru. Cyn deillio'r dyraniadau yn y flwyddyn academaidd i ddarparwyr, caiff costau gweithredu Medr o £16.394m eu cymryd i ystyriaeth.
19. Mae rhai llinellau buddsoddi wedi cael eu clustnodi gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithgarwch penodol yn uniongyrchol. Ym flwyddyn ariannol 2026-27 mae'r clustnodi hwn yn ymwneud â darpariaeth prentisiaethau o £150.535m, darpariaeth prentisiaethau iau o £1.000m, hybiau REACH o £400k, Menter ac Entrepreneuriaeth mewn AB o £360k a darpariaeth conservatoire cerddoriaeth a drama sy'n seiliedig ar berfformio o £1.970m. Ceir cyllidebau pellach na fyddant yn cael eu clustnodi ond sy'n dod gydag awgrymiadau gweinidogol megis cyllid ychwanegol i gynnal cyfartalwch cyflogau, cynnydd ar gyfer cymorth dysgu ychwanegol (CDY) mewn AB, cynnydd ar gyfer Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn (FCF), a chymorth i AU ar gyfer darpariaeth Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA).

Prentisiaethau iau

20. Darparwyd cyllid wedi'i glustnodi i gynyddu buddsoddiad mewn prentisiaethau iau o £600k i £1.0m. Darperir y buddsoddiad ychwanegol i ehangu'r rhaglen ledled Cymru.
21. Nid yw prentisiaethau iau yn brentisiaeth gyfreithiol. Llwybr 14-16 a ddarperir gan golegau AB mewn cydweithrediad gydag awdurdodau lleol ydynt. Mae'n cymryd dysgwyr mewn ysgolion sydd wedi ymddieithrio ac yn eu cyflwyno i lwybrau galwedigaethol ddwy flynedd yn gynharach nag a fyddai'n digwydd fel arall pe baent yn mynd i mewn i goleg neu gyflogaeth.
22. Bydd prentisiaethau iau'n cael eu talu'n ôl-ddyledus mewn tri rhandaliad ym mis Medi 2026, ym mis Ionawr 2027 ac ym mis Rhagfyr 2027 gyda dyraniadau llawn yn cael eu nodi i ddarparwyr trwy gyhoeddiad ar wahân.

Menter ac Entrepreneuriaeth

23. Darparwyd buddsoddiad wedi'i glustnodi eto i gefnogi'r elfen Menter ac Entrepreneuriaeth o'r Biwroau Cyflogaeth a Menter (EEBs).
24. Disgwylir y bydd Medr yn gwerthuso canlyniadau'r Biwroau Menter ac Entrepreneuriaeth yn ystod 2026/27. Yn y cyfamser, cynigir bod y gyllideb hon wedi'i chlustnodi'n cael ei dyrannu yn yr un ffordd ag yn 2025/26.

Hybiau REACH

25. Darparwyd cyllid wedi'i glustnodi i gefnogi gweithrediad parhaus Hybiau REACH. Diben y cyllid yw parhau i letya'r Hybiau Canolog Asesu Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Rhanbarthol ('REACH') rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027. Nod yr hybiau yw safoni'r modd yr asesir dysgwyr ESOL, cydlynu'r ddarpariaeth ymhlith partneriaid a rhannu'r galw am gyrsiau ESOL a'r cyflenwad ohonynt trwy wasanaeth diduedd sy'n diwallu anghenion pob dysgwr. Mae'r pedwar Hyb REACH wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam – sef y pedair ardal wasgaru yng Nghymru yn flaenorol.

Diwylliant – darpariaeth conservatoire cerddoriaeth a drama sy'n seiliedig ar berfformio (Cyllideb Diwylliant)

26. Darparwyd cyllid wedi'i glustnodi i gefnogi darpariaeth conservatoire cerddoriaeth a drama sy'n seiliedig ar berfformio. Dyrannwyd cyfanswm o £1.97m am y tro cyntaf yn 2025/26 o gyllideb diwylliant Llywodraeth Cymru. Mae £1.75m o'r cyllid hwn wedi'i gynnwys yn y premiwm pynciau drud (gweler paragraffau 91-94) ac mae £220k wedi'i gynnwys yn y cyllid ychwanegol ar gyfer darpariaeth yr elfen berfformio (gweler paragraff 117). Gweler [Medr/2025/35: Cyllid ychwanegol 2025-26 yn ystod y flwyddyn ar gyfer darpariaeth conservatoire cerddoriaeth a drama sy'n seiliedig ar berfformio](#).

Estyn

27. Ceir hefyd drosglwyddiad rhwng cyllidebau o £2.056m oddi wrth Lywodraeth Cymru i gyflawni cyfrifoldebau Medr i gyllido Estyn i gyflawni gweithgarwch cytunedig a nodir yn y llythyr cyllid a'r cynllun blynyddol dan adran 68 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 gan gynnwys arolygiadau o addysg bellach, prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned.
28. Yn olaf, mae'r llythyr cyllid a gadarnhawyd hefyd yn cynnwys dyraniadau cyfalaf.

| Blwyddyn ariannol 2026-27 | £ miliwn |
|--------------------------------|---------------|
| Cyfalaf addysg uwch | 10.000 |
| Cyfalaf digidol addysg bellach | 3.000 |
| Cyfalaf gweithredu Medr | 0.500 |
| Cyllideb gyfalaf | 13.500 |

Dyrannu cyllideb y flwyddyn ariannol

29. Mae'r dyraniad yn cyflwyno cyllideb gan gynnwys yr holl gyllid yr ydym yn disgwyl ei gael gan Lywodraeth Cymru ar adeg cyhoeddi.

| | £ miliwn |
|---|-----------------|
| Gofyniad mewn arian parod i gyflawni ymrwymadau dyraniadau blwyddyn academiaidd 2025/26 fel a gytunwyd gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch | 294.650 |
| Cyllideb weithredu | 16.394 |
| Cyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer prentisiaethau | 150.535 |
| Cyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer prentisiaethau iau | 1.000 |
| Cyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer Menter ac Entrepreneuriaeth mewn addysg bellach | 0.360 |
| Cyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer Estyn | 2.056 |
| Cyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer REACH | 0.400 |
| Darpariaeth conservatoire cerddoriaeth a drama sy'n seiliedig ar berfformio (Cyllideb Diwylliant). | 1.970 |
| Cyllidebau craidd | 488.688 |
| Cyllidebau wedi'u targedu | 48.955 |
| Cyllidebau cyfalaf | 13.500 |
| Cyfanswm | 1018.508 |

Cyfanswm buddsoddiad ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27

30. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r cyfanswm cyllid yn y flwyddyn academaidd, a nodir mewn mwy o fanylder drwy'r cyhoeddiad.

| | Blwyddyn academaidd 2025/26 £ miliwn | Blwyddyn academaidd 2026/27 £ miliwn |
|--|---|---|
| Wedi'i glustnodi: cyllideb prentisiaethau | 143.277 | 150.535 |
| Wedi'i glustnodi: prentisiaethau iau | 0.600 | 1.000 |
| Wedi'i glustnodi: Entrepreneuriaeth leuenctid | 0.360 | 0.360 |
| Wedi'i glustnodi: REACH | 0 | 0.400 |
| Wedi'i glustnodi: Estyn | 0 | 2.056 |
| | | |
| Craidd: chweched dosbarth awdurdodau lleol | 119.221 | 121.682 |
| Craidd: dysgu oedolion yn y gymuned awdurdodau lleol | 6.479 | 6.479 |
| Craidd: prif ffrwd addysg bellach | 434.894 | 466.424 |
| | | |
| Craidd: cyllid i gefnogi cynnydd mewn cyfranogiad | 21.126 | 6.250 |
| Craidd: ymchwil ac arloesi mewn addysg uwch ¹ | 97.121 | 98.121 |
| Craidd: cyllid addysgu mewn addysg uwch ² | 71.732 | 76.461 |
| Craidd: gradd-brentisiaethau ³ | 9.411 | 10.111 |
| Craidd: hepgoriad ffioedd rhan-amser | 0.200 | 0.200 |
| | | |
| Wedi'i dargedu: llesiant dysgwyr | 49.020 | 49.840 |
| Wedi'i dargedu: mynediad a llesiant | 7.764 | 7.025 |
| Wedi'i dargedu: cyflogadwyedd a sgiliau | 3.005 | 3.005 |
| Wedi'i dargedu: ymchwil ac arloesi | 2.000 | 2.000 |
| Wedi'i dargedu: myfyrwyr/dysgwyr a'r gweithlu | 8.075 | 6.795 |
| Wedi'i dargedu: data a thechnoleg | 3.500 | 3.500 |
| Wedi'i dargedu: cyllideb rhaglen ganolog | 0 | 3.000 |
| Wedi'i dargedu: datblygiadau strategol | 3.500 | 0.500 |
| | | |
| Cyfalaf: addysg uwch | 10.000 | 10.000 |
| Cyfalaf: digidol mewn addysg bellach | 3.000 | 3.000 |
| Cyfanswm | 994.285 | 1028.744 |

¹ Mae hyn yn cynnwys Ymchwil o Ansawdd (QR), ymchwil ôl-radd (PGR) a Chronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF).

² Mae hyn yn cynnwys premiymau amser llawn a rhan-amser, dyraniadau seiliedig-ar-gredydau a dyraniadau y pen.

³ Mae hyn yn cynnwys £5.111m o gyllideb yr economi a £5.000m o'r gyllideb addysg.

Dyraniadau craidd: darpariaeth prentisiaethau

31. Fel yn [y llythyr cyllid gan Lywodraeth Cymru](#), mae'r gyllideb prentisiaethau (a ddyrennir trwy Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi) wedi'i chlustnodi at ddiben penodedig.
32. Dylid nodi bod y brif raglen brentisiaethau ar gyfer lefelau 2-5 yn gweithredu'n wahanol i'r mwyafrif o gyllid Medr, yn yr ystyr mai contract a gaiff ei gaffael yn fasnachol ydyw, a ddarperir trwy 10 prif contractwr. Bydd rhaglen newydd yn dechrau ar 1 Awst 2027, a fydd yn symud i fodel cyllid grant.
33. Mae'r gyllideb prentisiaethau'n cynnwys darpariaeth sy'n amrywio o brentisiaethau sylfaen i radd-brentisiaethau.
34. Mae cyllideb prentisiaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 yn **£150.535 miliwn** sy'n gynydd o **£7.258 miliwn** o £143.277m ym mlwyddyn ariannol 2025-26.
35. Bydd y cynnydd hwn yn cael ei ymgorffori fel rhan o linell sylfaen cyllidebau mewn blynyddoedd yn y dyfodol, gan olygu y bydd unrhyw gynydd neu ostyngiad yn y gyllideb yn cael ei gyfrifo o fan cychwyn o £150.535m. Mae hyn yn ein galluogi i ddsbarthu'r cynnydd hwn yn strategol gyda golwg hirdymor, yn hytrach nag fel dyraniad cyllideb unigol.

Crynodeb o ddsbarthu'r gyllideb prentisiaethau wedi'i chlustnodi

| | £ miliwn |
|---|------------------|
| Cyllideb blwyddyn ariannol 2026-27 | 150.535 |
| Ymrwymiad yn y contract prentisiaethau ym mlwyddyn academiaidd 2025/26 y disgwylir iddo fod yn weddill hyd at 31 Gorffennaf 2026 | (51.342) |
| Cyfraniad tuag at gost dysgwyr sy'n parhau a gyllidir trwy ddyraniad ychwanegol yn ystod y flwyddyn o £4m ym mlwyddyn academiaidd 2025/26 | (3.300) |
| Cyfanswm ymrwymadau | (54.642) |
| Costau staff Medr a ariennir â chyllid y rhaglen ar gyfer prentisiaethau | (0.587) |
| Gradd-brentisiaethau (cyfraniad yr Economi) | (5.111) |
| Prentisiaethau a Rennir/â Chymorth a'r Cynllun Cymhelliant Cyflogwyr a CDY | (1.900) |
| Datblygiadau prentisiaethau | (1.005) |
| Contract prentisiaethau (Awst 2026 – Mawrth 2027) | (87.290) |
| Cyfanswm cynigion gwariant | (95.893) |
| Gwariant arfaethedig ar y cyfan | (150.535) |

Cyfraniad tuag at gost dysgwyr sy'n parhau

(a gyllidir trwy ddyraniad ychwanegol yn ystod y flwyddyn o £4m ym mlwyddyn academaidd 2025/26 i ategu cynnydd tuag at y targed yn y Rhaglen Lywodraethu o 100,000 o brentisiaethau)

| Darparwr | Buddsoddiad ychwanegol ym mlwyddyn academaidd 2025/2026 sy'n cael ei gario drosodd ym mlwyddyn academaidd 2026/27 £ |
|--|---|
| Associated Community Training Ltd | 695,032 |
| Cwmni Hyfforddiant Cambrian | 458,400 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 482,500 |
| Coleg Cambria | Amh |
| Educ8 Training Group Ltd | 364,277 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | Amh |
| Grŵp Llandrillo Menai | 241,441 |
| ITEC Training Solutions Ltd | 144,729 |
| Academi Sgiliau Cymru yng Ngrŵp Colegau NPTC | 317,808 |
| B-wbl Coleg Sir Benfro | 562,520 |
| Cyfanswm | 3,266,707 |

Staff a ariennir â chyllid y rhaglen

36. Mae'r gyllideb prentisiaethau'n cyfrannu £587,000 at gyllideb weithredu Medr.

Gradd-brentisiaethau

37. Caiff y gyllideb gradd-brentisiaethau ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 ei chynyddu £700k o lefelau cyllideb 2025-26 gyda £5.111 miliwn fel cyfraniad o gyllideb Economi Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu lefelau uwch o ran y galw a amlygir gan ddarparwyr a bydd hefyd yn ei gwneud yn bosibl i brentisiaid newydd ddechrau ar ddau lwybr a ddyluniwyd o'r newydd yn y fframweithiau adeiladu a digidol. Bydd £5m arall yn cael ei ddyrannu o gyllideb Addysg Llywodraeth Cymru, fel ym mlwyddyn academaidd 2025/26, i wneud cyfanswm cyllideb gradd-brentisiaethau o £10.111m.

Prentisiaethau a Rennir ac â Chymorth a'r Cynllun Cymhelliant Cyflogwyr a CDY

38. Mae prentisiaethau a rennir yn galluogi prentisiaid i ennill eu cymwysterau ar draws nifer o gyflogwyr yn hytrach na chael eu cyflogi mewn un cyflogwr. Mae hyn yn fuddiol i ficrofusnesau a BBChau nad ydynt o bosibl yn gallu cyflogi prentis ar sail amser llawn neu alluogi prentis i gwblhau pob agwedd ar fframwaith.

39. Mae prentisiaethau â chymorth yn rhoi cymorth ychwanegol i brentisiaid anabl ag anghenion cyflogaeth a dysgu dwys ac eang er mwyn iddynt allu cael mynediad at brentisiaeth a'i chwblhau. Gall y cymorth a roddir fod trwy gymell mewn swydd neu adnodd arbenigol arall.

40. O flwyddyn ariannol 2025-26 mae'r Cynllun Cymhelliant Cyflogwyr, a buddsoddiad CDY wedi cael eu dwyn ynghyd fel un llinell yn y gyllideb. Bydd y gyllideb wedi'i

choladu'n rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr ddefnyddio'r gyllideb hon yn unol ag anghenion dysgwyr.

41. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 bydd y Prentisiaethau a Rennir ac â Chymorth, y Cynllun Cymhelliant Cyflogwyr a chymorth ADY yn cael buddsoddiad o £1.900m.

Datblygiadau prentisiaeth

42. Mae buddsoddiad o £1.005m a ddyrennir dan y pennawd hwn yn cefnogi'r gweithgareddau canlynol sy'n tanategu llwyddiant y rhaglen brentisiaethau.

Adolygu a datblygu fframweithiau prentisiaethau

43. Mae Fframweithiau/Llwybrau Prentisiaethau'n cael eu hadolygu ar sail gylchol i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion a chyrraedd safonau'r diwydiant. Mae adolygiadau sydd yn yr arfaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 yn cynnwys:

- a. Technoleg Ddigidol
- b. Bwyd a Diod
- c. Arlwyyo a Lletygarwch
- d. Gwasanaethau Addysg a Gwybodaeth
- e. Gwasanaethau Cyfreithiol ac Ariannol
- f. Gwyddorau Bywyd
- g. Gwasanaethau Eiddo
- h. Gwasanaethau Amddiffynnol
- i. Gwasanaethau Cyhoeddus
- j. Manwerthu

Bydd gweithgarwch hefyd yn cynnwys ymchwil, gwerthuso a chynnal a chadw systemau.

Paratoi ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd

44. Bydd y rhaglen brentisiaethau newydd yn dechrau ym mlwyddyn academaidd 2027/28. Bydd y gyllideb hon hefyd yn cael ei defnyddio i gefnogi gwaith gwerthuso a datblygu sy'n gysylltiedig â'r rhaglen newydd.

Ymrwymiad ar gyfer contract prentisiaethau 2026/27

45. Mae contract academaidd 2026/27 yn rhychwantu dwy flynedd ariannol. O ganlyniad, ceir ymrwymiad yng nghyllideb blwyddyn ariannol 2027-28 sy'n ymwneud â gweddill cost darpariaeth ar gyfer y flwyddyn contract gyfredol (blwyddyn academaidd 2026/27) h.y. cost darpariaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2027 a 31 Gorffennaf 2027.
46. Gan bod 63% o werth contract y flwyddyn academaidd hon, sef 2026/27, wedi'i broffilio i gael ei wario rhwng 1 Awst 2026 a 31 Mawrth 2027, mae'r ymrwymiad

gofynnol ar y llinell prentisiaethau yng nghyllideb blwyddyn ariannol 2026-27 yn £87.290m. Bydd gweddill contract blwyddyn academiaidd 2026/27, 37%, yn cael ei gyflawni ym mlwyddyn ariannol 2027-28 ac yn golygu bod angen ymrwymiad cyllidebol o £51.266m yng nghyllideb blwyddyn ariannol 2027-28.

Dyraniad y gyllideb prentisiaethau yn y flwyddyn academiaidd (blwyddyn contract) ar lefel darparwyr

| Darparwr | Dyraniad blwyddyn academiaidd 2025/26 £ | Dyraniad blwyddyn academiaidd 2026/27 £ | Amrywiad £ | Amrywiad % |
|--|--|--|------------------|---------------|
| Associated Community Training Ltd | 24,629,864 | 25,368,760 | 738,896 | 3.00 |
| Cwmni Hyfforddiant Cambrian | 7,551,016 | 7,777,546 | 226,530 | 3.00 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 12,558,009 | 12,934,749 | 376,740 | 3.00 |
| Coleg Cambria | 11,881,174 | 12,237,609 | 356,435 | 3.00 |
| Educ8 Training Group | 11,569,808 | 11,916,902 | 347,094 | 3.00 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 9,090,208 | 9,362,914 | 272,706 | 3.00 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 11,902,999 | 12,260,089 | 357,090 | 3.00 |
| ITEC Training Solutions Ltd | 7,125,746 | 7,339,518 | 213,772 | 3.00 |
| Academi Sgiliau Cymru yng Ngrŵp Colegau NPTC | 17,141,365 | 17,655,606 | 514,241 | 3.00 |
| B-Wbl Coleg Sir Benfro | 21,069,812 | 21,701,906 | 632,094 | 3.00 |
| Cyfanswm | 134,520,001 | 138,555,601 | 4,035,600 | 3.00 |

Dyraniadau craidd: darpariaeth chweched dosbarth awdurdodau lleol

47. Mae buddsoddiad craidd yn lleoliadau chweched dosbarth awdurdodau lleol yn cefnogi darpariaeth addysg amser llawn ar draws 133 o leoliadau chweched dosbarth mewn ysgolion yng Nghymru. Darpariaeth Safon Uwch (sy'n gyfwerth â lefel 3) yw'r ddarpariaeth yn bennaf, gydag ychydig bach o ddarpariaeth alwedigaethol, a ddarperir i oddeutu 21,000 o ddysgwyr 16-19 oed.
48. Mae'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo dyraniadau lleoliadau chweched dosbarth awdurdodau lleol yn dilyn y fethodoleg a ddefnyddiwyd ers blwyddyn ariannol 2015-16 a dyma oedd y dull a argymhellwyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW).
49. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r fethodoleg cyllido'n defnyddio cyfuniad o niferoedd dysgwyr hanesyddol a niferoedd dysgwyr demograffig a ragamcanir ar gyfer pob awdurdod lleol, gan luosi'r rhain â gwerth cyfartalog a gyfrifwyd ar gyfer rhaglenni. Mae codiadau ar gyfer amddifadedd, ardal denau ei phoblogaeth a chyfrwng Cymraeg ynghyd â lwfans o 3% a gedwir yn ganolog gan awdurdodau lleol a chyfraniad o 3.91% ar gyfer y Cynllun Pensiwn Athrawon yn cael eu hychwanegu at hyn i bennu'r dyraniad terfynol.

Cynnydd yn y gyfradd fesul uned (chweched dosbarth a gynhelir gan awdurdodau lleol, grant dysgu cymunedol, a sefydliadau addysg bellach)

50. Mae cynnydd o 5.4% wedi cael ei roi ar waith ar gyfer cyfradd fesul uned y cyfeiriadur rhaglenni. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 3.2% yn y gyfradd fesul uned ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27, ynghyd â chynnydd o 2.2% mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Er nad yw'r addasiad hwn wedi'i fwriadu'n benodol i ariannu codiad cyflog ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27, rhaid i unrhyw godiad cyflog ym mlwyddyn academaidd 2026/27, y cytunir arno gan undebau a'r sector, gael ei reoli o fewn y dyraniad hwn.

Dyraniadau arfaethedig awdurdodau lleol ym mlwyddyn academaidd 2026/27

51. Ceir gwybodaeth am y dadansoddiad o'r dyraniadau ar lefel colegau unigol yn **Atodiad D**.

| Awdurdod lleol | * Cyfanswm dyraniad blwyddyn academaidd 2025/26 £ | Cyfanswm dyraniad blwyddyn academaidd 2026/27 £ | Amrywiad o flwyddyn academaidd 2025/26 £ | Amrywiad o 2025/26 % |
|----------------------------------|--|--|---|-------------------------|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3,156,283 | 3,135,313 | (20,970) | -0.66 |
| Cyngor Gwynedd | 4,829,736 | 4,825,876 | (3,860) | -0.08 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 5,927,330 | 5,637,303 | (290,027) | -4.89 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 4,272,606 | 4,578,634 | 306,028 | 7.16 |
| Cyngor Sir y Fflint | 5,126,978 | 5,165,213 | 38,235 | 0.75 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 1,330,539 | 1,355,413 | 24,874 | 1.87 |
| Cyngor Sir Powys | 5,649,039 | 5,642,599 | (6,440) | -0.11 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 4,368,101 | 4,334,083 | (34,018) | -0.78 |

| Awdurdod lleol | * Cyfanswm dyraniad blwyddyn academaidd 2025/26 £ | Cyfanswm dyraniad blwyddyn academaidd 2026/27 £ | Amrywiad o flwyddyn academaidd 2025/26 £ | Amrywiad o 2025/26 % |
|---|--|--|---|-------------------------|
| Cyngor Sir Penfro | 3,583,094 | 3,682,230 | 99,136 | 2.77 |
| Cyngor Sir Gâr | 7,916,671 | 7,958,148 | 41,477 | 0.52 |
| Cyngor Dinas a Sir Abertawe | 7,371,497 | 7,796,093 | 424,596 | 5.76 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 2,489,761 | 2,400,387 | (89,374) | -3.59 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 8,091,964 | 8,197,557 | 105,592 | 1.30 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 8,562,841 | 9,063,043 | 500,202 | 5.84 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 10,333,414 | 10,807,002 | 473,588 | 4.58 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 4,251,611 | 4,032,937 | (218,674) | -5.14 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 546,397 | 674,871 | 128,474 | 23.51 |
| Cyngor Sir Fynwy | 4,262,143 | 4,166,418 | (95,725) | -2.25 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 8,740,443 | 8,982,033 | 241,590 | 2.76 |
| Cyngor Caerdydd | 18,410,485 | 19,246,975 | 836,490 | 4.54 |
| Cyfanswm | 119,220,933 | 121,682,128 | 2,461,195 | 2.06 |

*Roedd cyhoeddiad blwyddyn academaidd 2025/26 yn cynnwys dyraniad 16 mis ar gyfer awdurdodau lleol, gan alluogi Medr i symud yr holl fuddsoddiad craidd mewn darpariaeth drydyddol i gylch cyllidebol ar sail blwyddyn academaidd. Mae blwyddyn academaidd 2026/27 wedi newid yn ôl i ddyraniad 12 mis.

52. Er y bu cynnydd o 5.4% yng nghyfradd fesul uned y cyllid ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27, 1.99% yw'r cynnydd cyfartalog yng nghyfanswm y buddsoddiad ar gyfer awdurdodau lleol; serch hynny, mae'r newid yn y buddsoddiad ar gyfer pob darparwr yn amrywio fel a ddangosir uchod.
53. Bydd y cyllid craidd yn narpariaeth chweched dosbarth awdurdodau lleol yn cael ei dalu mewn deuddeg rhandaliad cyfartal yn fisol.

Dyraniadau craidd: grant dysgu cymunedol (CLG) awdurdodau lleol

54. Mae'r Grant Dysgu Cymunedol craidd i awdurdodau lleol yn cefnogi darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ar draws 21 o awdurdodau lleol ac 1 sefydliad addysg bellach. Mae'r grant yn cwmpasu dysgu yn y gymuned ar gyfer dysgwyr 19 oed a throsgod, gyda ffocws ar sgiliau sylfaenol, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol.
55. Cafodd y fethodoleg buddsoddi ar gyfer CLG ei hadolygu ym mlwyddyn academaidd 2020/21. Roedd y gyllideb yn seiliedig ar niferoedd y dysgwyr ym mhob awdurdod lleol nad oes ganddynt gymhwyster lefel 1 fel a nodir yn nata Nomis gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol⁴. Ym mhob blwyddyn ddiweddarach ers hynny, mae'r gyllideb wedi cael ei chadw ar yr un lefel.
56. Ymhen hir a hwyr, bydd dyletswydd newydd yn cael ei throsglwyddo i Medr fel a nodir yn [Adran 94](#) Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Gyda'r ddyletswydd newydd⁵ yn yr arfaeth, mae dyraniadau blwyddyn academaidd 2026/27 yn cael eu cadw ar y lefelau cyfredol i sicrhau parhad nes bod gofynion y ddyletswydd newydd yn y dyfodol yn cael eu cadarnhau.
57. Bydd buddsoddiad CLG ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei ddyrannu i Goleg Penybont, fel ym mlwyddyn academaidd 2025/26.

| Awdurdod lleol | Cyfanswm dyraniad blwyddyn ariannol 2025-26 a/neu flwyddyn academaidd 2025/26 (Ebr 25-Gor 26) £ | Dyraniad blwyddyn academaidd 2025/26 £ | Dyraniad blwyddyn academaidd 2026/27 £ |
|----------------------------------|---|--|--|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 161,964 | 121,473 | 121,473 |
| Cyngor Sir Gwynedd | 268,111 | 201,083 | 201,083 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 283,264 | 212,448 | 212,448 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 228,676 | 171,507 | 171,507 |
| Cyngor Sir y Fflint | 364,148 | 273,111 | 273,111 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 335,600 | 251,700 | 251,700 |
| Cyngor Sir Powys | 314,356 | 235,767 | 235,767 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 150,285 | 112,714 | 112,714 |
| Cyngor Sir Penfro | 584,292 | 438,219 | 438,219 |
| Cyngor Sir Gâr | 456,924 | 342,693 | 342,693 |
| Cyngor Abertawe | 544,329 | 408,247 | 408,247 |

⁴ [DC5107EWLA \(Lefel cymhwyster uchaf yn ôl rhyw yn ôl oedran\) - Nomis – Ystadegau Swyddogol ar y Cyfrifiad a'r Farchnad Lafur](#)

⁵ Unwaith y bydd y ddyletswydd newydd wedi'i diffinio, rhaid i Medr sicrhau y darperir cyfleusterau priodol i ddysgwyr ôl-19 yng Nghymru ar gyfer addysg a hyfforddiant perthnasol ar gyfer personau cymwys sy'n addas i'w gofynion. Mae'r diffiniadau o ddysgwyr cymwys ac addysg berthnasol yn dal wrthi'n cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru.

| Awdurdod lleol | Cyfanswm dyraniad blwyddyn ariannol 2025-26 a/neu flwyddyn academaidd 2025/26 (Ebr 25-Gor 26) £ | Dyraniad blwyddyn academaidd 2025/26 £ | Dyraniad blwyddyn academaidd 2026/27 £ |
|--|--|---|---|
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 396,448 | 297,336 | 297,336 |
| Coleg Penybont | 273,654 | 273,654 | 273,654 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 258,277 | 193,708 | 193,708 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 659,437 | 494,578 | 494,578 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 503,035 | 377,276 | 377,276 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 175,709 | 131,782 | 131,782 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 243,085 | 182,314 | 182,314 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 357,465 | 268,099 | 268,099 |
| Cyngor Sir Fynwy | 188,628 | 141,471 | 141,471 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 420,000 | 315,000 | 315,000 |
| Cyngor Caerdydd | 1,379,841 | 1,034,881 | 1,034,881 |
| Cyfanswm | 8,547,530 | 6,479,061 | 6,479,061 |

58. Mae'r buddsoddiad mewn CLG yn cymhwyso'r gyfradd fesul uned sydd wedi cynyddu 5.4% ar gyfer 2026/27.
59. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyrraedd 97% o'u targed ariannol ar gyfer CLG. Bydd unrhyw ddarpariaeth islaw'r lefel hon yn cael ei hadhawlio'n llawn.
60. Bydd taliadau CLG yn cael eu gwneud i ddarparwyr mewn tri rhandaliad ym mlwyddyn academaidd 2026/27: 33.33% ym mis Awst 2026, 33.33% ym mis Rhagfyr 2026, a 33.34% ym mis Ebrill 2027.

Buddsoddiad i gefnogi cynnydd mewn cyfranogiad

61. Ym mlwyddyn academaidd 2026/27, bydd rhagor o gymorth i gydnabod cynnydd mewn cyfranogiad. Trafodir hyn ym mharagraff 74-76.

Dyraniadau craidd: Darpariaeth addysg bellach (amser llawn, rhan-amser, Cymorth Dysgu Ychwanegol a Chronfeydd Ariannol Wrth Gefn)

Darpariaeth addysg bellach (amser llawn, ran-amser)

62. Mae buddsoddiad craidd mewn addysg bellach (AB) yn cefnogi darpariaeth addysg amser llawn a rhan-amser ar draws 13 o sefydliadau AB yng Nghymru.
63. Mae darpariaeth amser llawn yn cynnwys darpariaeth Safon Uwch a galwedigaethol ar draws pob lefel addysgol o lefel mynediad i lefel 4 ar gyfer oddeutu 45,915 o ddysgwyr.

Buddsoddiad amser llawn

64. Mae'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r dyraniadau amser llawn yn dilyn y fethodoleg a ddefnyddiwyd ers blwyddyn academaidd 2015/16 ac a ddatblygwyd ac y cytunwyd arni gyda'r sector addysg bellach.
65. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r fethodoleg buddsoddi'n defnyddio cyfuniad o niferoedd dysgwyr hanesyddol a niferoedd dysgwyr demograffig a ragamcanir ar gyfer pob sefydliad, gan luosi'r rhain â gwerth cyfartalog a gyfrifwyd ar gyfer rhaglenni. Mae codiadau ar gyfer amddifadedd, ardal denau ei phoblogaeth a chyfrwng Cymraeg ynghyd â lwfans o 3% a gedwir yn ganolog, lwfans cynnal a chadw ystadau o 2% a chyfraniad o 2.56% ar gyfer y Cynllun Pensiwn Athrawon yn cael eu hychwanegu at hyn i bennu'r dyraniad amser llawn terfynol.
66. Mae blwyddyn bontio derfynol wedi cael ei chymhwyso i Goleg y Cymoedd i gydnabod bod dau leoliad chweched dosbarth wedi cael eu cau yn Rhondda Cynon Taf. Gan bod y model cyllido'n seiliedig ar ddata hanesyddol, mae 218 o ddysgwyr ychwanegol wedi cael eu hychwanegu â llaw at ddyraniad Coleg y Cymoedd. Mae hyn yn adlewyrchu'r trefniant pontio y cytunwyd arno mewn blynyddoedd blaenorol lle mae dysgwyr a fyddai wedi mynychu lleoliadau chweched dosbarth sydd bellach wedi cau yn cofrestru yn y coleg yn lle hynny.

Buddsoddiad rhan-amser

67. Mae buddsoddiad rhan-amser yn cynnwys Addysg Sylfaenol Oedolion (ABE) a Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith (PREP), Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), Ailsefyll TGAU (GCSE-R), Cymwysterau Galwedigaethol yn y gweithle (OccQs), Cyfrif Dysgu Personol (PLA), Lleoliadau Profiad Gwaith (WEP), a Blaenoriaethau Lleol Eraill (OLP). Darperir hyn i oddeutu 62,000 o ddysgwyr a oedd yn bennaf yn 19 oed neu hŷn ym mlwyddyn academaidd 2024/25⁶.
68. Mae'r cynnydd yn y gyfradd fesul uned o 5.4% wedi cael ei gymhwyso i ddyraniad blwyddyn academaidd 2025/26.
69. Mae'n ofynnol i sefydliadau addysg bellach gyrraedd 97% o'u targed ariannol rhan-amser. Bydd unrhyw ddarpariaeth islaw'r lefel hon yn cael ei hadhawlio'n llawn.

⁶ Data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25. Bydd rhai o'r dysgwyr hyn wedi cael eu cyllido allan o'r pot amser llawn hefyd (e.e. dysgwyr amser llawn yn ailsefyll TGAU).

70. Mae'r dyraniad rhan-amser i Addysg Oedolion Cymru wedi cael ei gynyddu £200k, cyn cymhwyso'r addasiad i'r gyfradd fesul uned ac unrhyw godiadau i roi cyfrif am gynydd yn y ddarpariaeth a gymeradwywyd yn 2024/25.

Dyraniadau darpariaeth AB ym mlwyddyn academiaidd 2026/27

71. Er y bu cynnydd o 5.4% i gyfradd fesul uned y cyllid ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026/27, mae'r cynnydd cyfartalog yn y buddsoddiad ar gyfer sefydliadau addysg bellach (SABau) yn uwch ar 7.25%. Gall y swm fesul sefydliad amrywio, gydag unrhyw wahaniaeth i'w briodoli i ragfynegiadau ynghylch cyfrif pennau a/neu newidiadau yn y modd y darperir rhaglenni.
72. Ceir gwybodaeth am y dadansoddiad o'r dyraniadau ar lefel colegau unigol yn **Atodiad E**.

| | Cyfanswm dyraniad blwyddyn academiaidd 2025/26 £ | Cyfanswm dyraniad blwyddyn academiaidd 2026/27 £ | Amrywiad o flwyddyn academiaidd 2025/26 £ | Amrywiad % |
|--------------------------|---|---|--|-------------|
| Coleg Penybont | 21,702,041 | 23,345,584 | 1,643,543 | 7.04 |
| Coleg Sir Gâr | 29,530,758 | 31,027,142 | 1,496,384 | 4.82 |
| Coleg Gwent | 60,517,392 | 64,860,346 | 4,342,954 | 6.70 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 51,637,537 | 55,681,812 | 4,044,275 | 7.26 |
| Y Coleg Merthyr Tudful | 13,682,269 | 15,180,834 | 1,498,565 | 9.87 |
| Coleg Sir Benfro | 17,207,636 | 18,232,822 | 1,025,186 | 5.62 |
| Coleg Catholig Dewi Sant | 9,824,743 | 10,608,619 | 783,876 | 7.39 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 37,080,774 | 39,632,978 | 2,552,204 | 6.44 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 52,783,833 | 55,903,029 | 3,119,196 | 5.58 |
| Coleg Cambria | 52,934,826 | 57,929,859 | 4,995,033 | 8.62 |
| Coleg y Cymoedd | 44,977,993 | 48,322,922 | 3,344,929 | 6.92 |
| Grŵp Colegau NPTC | 34,783,838 | 36,928,477 | 2,144,639 | 5.81 |
| Addysg Oedolion Cymru | 8,230,114 | 8,769,923 | 539,809 | 6.16 |
| Cyfanswm | 434,893,753 | 466,424,347 | 31,530,594 | 6.76 |

73. Bydd taliadau'n cael eu gwneud yn fisol ar sail rhaniad o 63/37%.

Buddsoddiad i gefnogi cynnydd mewn cyfranogiad

74. Ym mlwyddyn ariannol 2025/26 roedd Medr yn gallu cadw £21.126m yn ôl ar gyfer dyrannu yn ystod y flwyddyn unwaith y dangoswyd tystiolaeth o gynydd mewn cyfranogiad: [Medr/2026/02: Cyllid ychwanegol i gefnogi cynnydd mewn cyfranogiad mewn sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol 2025/26](#) a [Medr/2026/12: Cyllid ychwanegol i gefnogi cynnydd mewn cyfranogiad mewn sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol 2025/26](#).
75. Mae Medr yn dyrannu buddsoddiad ychwanegol o £6.25m yng nghyllideb blwyddyn ariannol 2026–27 i gydnabod y cynnydd yn niferoedd y cyfranogiad mewn addysg drydyddol o fewn addysg bellach (AB). Mae hyn yn adlewyrchu y bydd y recriwtio

disgwyliedig ar gyfer darpariaeth 16–19 oed yn uwch na'r cyllid a ddeillir gan ddefnyddio'r fethodoleg ariannu gymeradwy.

76. Unwaith y bydd tystiolaeth wedi cael ei choladu bydd unrhyw ddyraniadau ychwanegol a wneir â'r gyllideb hon yn cael eu cyfleu trwy gyhoeddiad ar wahân. Yn y cyfamser, mae Bwrdd Medr wedi cytuno i warantu'r 1.46% cyntaf o unrhyw dwf y dangosir tystiolaeth ohono i roi tybiaeth gynllunio eglur i bob darparwr 16-19.

Dyraniadau craidd: darpariaeth addysg uwch

77. Darperir buddsoddiad craidd ar gyfer addysg uwch i gydnabod lle mae costau darparu'n uwch na lefel y ffi ddysgu, ac i gynnal gweithgarwch ymchwil ac arloesi o ansawdd da. Caiff dyraniadau eu deillio â fformiwlâu a ddatblygwyd trwy ymgynghori â darparwyr addysg uwch.
78. Nid ydym yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch ailadrodd ein dull ni yn uniongyrchol wrth wneud eu dyraniadau mewnol hwy eu hunain. Rydym yn disgwyl y bydd penderfyniadau ynglŷn â dyraniadau adnoddau manwl i adrannau a chyrsgiau'n cael eu gwneud yn strategol i adlewyrchu amgylchiadau a blaenoriaethau lleol a chan roi ystyriaeth ddyladwy i effaith bosibl dyraniadau o ran cyfrifoldebau statudol darparwyr, gan gynnwys y rhai am gydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru.
79. Bydd buddsoddiad craidd ar gyfer addysg uwch, gan gynnwys ymchwil ac arloesi, yn parhau i gael ei ddarparu fel grant bloc, gyda darparwyr yn gallu pennu eu blaenoriaethau eu hunain o ran sut y dosberthir hwn yn fewnol.

Buddsoddiad ar gyfer ymchwil ac arloesi

Ymchwil o Ansawdd (QR)

80. Mae'r elfen QR o'r grant cylchol yn gwobrwyo rhagoriaeth ymchwil gynaliadwy, gan ddefnyddio ansawdd a maint ymchwil fel a ddangosir gan ganlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27, £77.1 miliwn yw'r buddsoddiad a neilltuir ar gyfer QR. Mae hyn yr un fath â'r hyn a ddyrannwyd ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26. Dyrennir buddsoddiad mewn QR gan ddefnyddio'r dull a gyhoeddwyd yng nghylchlythyr [W22/24HE](#) gan un o'r cyrff a'n rhagflaenodd, sef Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).
81. Caiff dyraniadau QR blwyddyn academaidd 2026/27 eu nodi fesul darparwr yn Nhabl 1. Ceir dadansoddiad ar gyfer pob darparwr fesul uned asesu yn **Atodiad A**.

Hyfforddiant ymchwil ôl-radd (PGR)

82. Rydym yn gweithredu ffrwd fuddsoddi ar wahân i gefnogi hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr PGR. Dyrennir buddsoddiad PGR gan ddefnyddio'r dull a gyhoeddwyd yng nghylchlythyr CCAUC [W22/24HE](#).
83. Mae buddsoddiad o fewn uchafswm ar y cyfan y cytunir arno gan Fwrdd Medr bob blwyddyn ac mae'n seiliedig ar ffigwr cyfwerth ag amser llawn (CagALI) y niferoedd mwyaf diweddar i gael eu cadarnhau o gofrestrïadau gwirioneddol, sef y cofrestrïadau cyllidadwy cymwys tybiedig mewn Unedau Asesu sy'n gymwys i gael buddsoddiad QR ym mlwyddyn academaidd 2026/27. Cymerir y data cofrestru CagALI o ffurflenni cofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25.
84. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27, mae'r Bwrdd wedi pennu £6.0 miliwn fel cyfanswm y buddsoddiad ar gyfer PGR. Mae hwn yn gynydd o 2.6% o'i gymharu â blwyddyn academaidd 2025/26. Caiff y dyraniadau PGR eu nodi yn Nhabl 1.

Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF)

85. Dyluniwyd RWIF i gefnogi'r ystod o weithgareddau cyfnewid gwybodaeth sy'n dwyn effaith economaidd a chymdeithasol, gan gynnwys rôl cenhadaeth ddinesig ehangach darparwyr. Mae'r buddsoddiad yn rhoi cymorth i weithio gyda busnesau, sefydliadau cyhoeddus a'r trydydd sector, cyrff cymunedol a'r cyhoedd ehangach.
86. Mae dwy elfen i ddyraniadau RWIF: (i) grant capasiti i gefnogi twf ac arfer gorau, galluogi mwy o gydweithio a sicrhau sefydlogrwydd ar draws y sector; a (ii) dyraniad fformiwla sy'n gwobrwyo perfformiad yn erbyn mesurau cenedlaethol ar gyfer arloesi a bennwyd gan CCAUC.
87. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27, mae'r Bwrdd wedi pennu £15.0 miliwn fel cyfanswm y dyraniad ar gyfer RWIF. Mae hyn yn gynydd o 6.0% o'i gymharu â blwyddyn academaidd 2025/26 ac yn ddychweliad at lefel gyllido RWIF cyn blwyddyn academaidd 2024/25. Yn seiliedig ar y cyfanswm cyllideb o £15.0 miliwn, pennwyd ffigwr o £250k fesul sefydliad ar gyfer y grant capasiti, sy'n gynydd o'r £236k ym mlwyddyn academaidd 2025/26. £4 miliwn y flwyddyn yw'r dyraniad mwyaf posibl y gall unrhyw sefydliad ei gael (cyfuniad o grant capasiti a fformiwla). Pennwyd isafswm o £400k fesul sefydliad.
88. Yn dilyn ymgynghori â'r sector addysg uwch, fe ddiweddarwyd methodoleg buddsoddi fformiwla RWIF (cylchlythyr CCAUC [W22/41HE](#)) fel ei bod yn rhoi cyfrif yn fwy priodol am gwmnïau deilliedig a busnesau a gychwynwyd gan raddedigion. Defnyddiwyd y dull wedi'i ddiweddarau o flwyddyn academaidd 2023/24 wrth i RWIF symud i gylch pum mlynedd mwy aeddfed (Cylchlythyr CCAUC [W23/12HE](#)). Mae'r elfen fformiwla wrth gyfrifo'r buddsoddiad yn cael ei diweddarau'n flynyddol, gan ddefnyddio tair blynedd o ddata a gyflwynwyd i Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch-Busnes a Chymuned (HE-BCI) HESA. Mae cyfrifiadau blwyddyn academaidd 2026/27 yn seiliedig ar y data HE-BCI a ddychwelwyd rhwng blwyddyn academaidd 2022/23 a blwyddyn academaidd 2024/25. Mae'r blynyddoedd wedi'u pwysoli ar sail 2:3:5. Bob blwyddyn gall darparwyr weld elfennau fformiwla eu dyraniad yn cynyddu hyd at 30% neu'n gostwng hyd at -10%. Cafodd y gostyngiad blynyddol mwyaf posibl ei godi fel ei fod yn -5% ym mlwyddyn academaidd 2023/24 i sicrhau sefydlogrwydd yn ystod y newidiadau i'r fethodoleg cyllido. Mae hwn wedi bod yn cael ei adolygu'n flynyddol ac mae wedi newid yn ôl i -10% ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27.
89. Darperir dyraniadau yn Nhabl 1.

Buddsoddiad mewn addysgu

90. Mae'r holl gyfraddau buddsoddi a ddefnyddir i gyfrifo'r buddsoddiad mewn addysgu ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 yn gyfwerth â'r rhai a ddefnyddiwyd ym mlwyddyn academaidd 2025/26. Mae newidiadau mewn recriwtio ac felly data a gynhwysir wrth gyfrifo'r dyraniadau'n golygu bod cymariaethau o un flwyddyn i'r llall yn y buddsoddiad a ddyrennir ar gyfer pob ffrwd fuddsoddi'n gallu dangos codiadau neu ostyngiadau.

Buddsoddiad premiwm – darpariaeth israddedig amser llawn (FT UG)

91. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27, mae'r premiwm pynciau drud (ESP) a'r premiwm pynciau cost uwch yn cael eu dyrannu ar gyfer darpariaeth FT UG. Dyrennir y premiwm pynciau drud mewn perthynas â meddygaeth/deintyddiaeth glinigol a darpariaeth elfen berfformio conservatoire tra bo'r premiwm pynciau cost uwch yn cael ei ddyrannu mewn perthynas â meddygaeth/deintyddiaeth anghlinigol, gwyddoniaeth, peirianeg a thechnoleg, a gwyddorau mathemategol, TG a chyfrifiadura.

92. Amlinellir dyraniadau'r premiwm pynciau drud yn Nhabl 3 ac maent yn seiliedig ar y ddwy gyfradd premiwm isod, a ddyfernir fesul gwerth credyd a gwblhawyd:

Premiwm pynciau drud:

- Cyfradd 1 - £81.39, a gymhwysir i bynciau meddygol/deintyddol clinigol (sy'n gyfwrth â chategori pynciau academaidd (ASC) 1b ac 1d)
- Cyfradd 2 - £74.99, a gymhwysir i'r elfen berfformio conservatoire (darpariaeth elfen berfformio yn ASC 10).

93. Mae'r cyfraddau buddsoddi hyn yr un fath â'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer buddsoddi ym mlwyddyn academaidd 2025/26 gan gynnwys y cynnydd i'r gyfradd ar gyfer yr elfen berfformio conservatoire a gymhwyswyd yn ystod y flwyddyn (gweler cyhoeddiad Medr, [Medr/2025/35: Cyllid ychwanegol 2025-26 yn ystod y flwyddyn ar gyfer darpariaeth conservatoire cerddoriaeth a drama sy'n seiliedig ar berfformio](#)).

94. Hefyd, fel a fu'n digwydd ers blwyddyn academaidd 2019/20, bydd buddsoddiad ar gyfer y premiwm pynciau drud yn cael ei gapio trwy gyfyngu ar nifer y gwerthoedd credydau y gellir eu defnyddio yn y cyfrifiad. Ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth glinigol, y gwerthoedd credydau sy'n gyfwrth â nifer y lleoedd clinigol o fewn y cwota yw hyn. Ar gyfer darpariaeth conservatoire, y gwerthoedd credydau sy'n gyfwrth â'r niferoedd myfyrwyr wedi'u cyllido y cytunwyd arnynt fel rhan o'r trefniant buddsoddi arbennig sydd yn ei le, cyn cyflwyno'r gyfundrefn ffioedd dysgu ddiwygiedig ym mlwyddyn academaidd 2012/13, yw hyn. Ym mlwyddyn academaidd 2022/23, fe godwyd y cap i gynnwys niferoedd myfyrwyr ychwanegol yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ar gyfer darpariaeth theatr gerdd.

95. Caiff y dyraniadau ar gyfer y premiwm pynciau cost uwch eu hamlinellu yn Nhabl 3 ac maent yn seiliedig ar y cyfraddau premiwm isod, a ddyfernir fesul gwerth credyd a gwblhawyd.

Premiwm pynciau cost uwch:

- Meddygaeth/deintyddiaeth anghlinigol - £10.79
- Gwyddoniaeth, peirianeg a thechnoleg - £6.20
- Gwyddorau mathemategol, TG a chyfrifiadura - £2.90

96. Y pynciau sydd wedi'u cynnwys yn y premiwm pynciau cost uwch yw'r rhai lle amcangyfrifir bod cost y ddarpariaeth yn uwch na'r ffi ddysgu gyfartalog y tybir y bydd darparwyr yng Nghymru'n ei chael, yn ôl gwaith a wnaed ym mlwyddyn academaidd 2019/20. Mae manylion y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r cyfraddau buddsoddi gwreiddiol wedi'u cynnwys yng nghylchlythyr CCAUC [W18/24HE](#), er y dylid nodi bod y data a ddefnyddir yn y cyfrifiadau wedi cael ei ddiweddarau ar gyfer rhoi ar waith ym mlwyddyn academaidd 2019/20, a bod unrhyw dalgrynnu a wnaed i'r ffigyrau wedi

cael ei wneud ar ddiwedd y broses gyfrifo. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r dull ar gyfer buddsoddiad ym mlwyddyn academiaidd 2026/27. Cyfrifir dyraniadau ar gyfer darparwyr trwy luosi'r gyfradd buddsoddi â gwerthoedd credydau a gwblhawyd o ddata monitro diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024/25 a gymerwyd o gofnod myfyrwyr HESA ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024/25, ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn a rhyngosod, gyda gwerthoedd credydau blwyddyn rhyngosod yn cael eu cyfrif ar 0.5.

97. Dangosir buddsoddiad y pen a buddsoddiad premiwm FT UG ar gyfer lleoedd meddygol ychwanegol ar wahân yn Nhabl 5 ac nid yw wedi'i gynnwys yn Nhabl 3. Mae paragraffau 123 i 128 isod yn darparu rhagor o wybodaeth am y lleoedd meddygol ychwanegol.
98. Ym mlwyddyn academiaidd 2023/24, fe gyflwynwyd premiwm cyfrwng Cymraeg mewn perthynas â darpariaeth FT UG. Mae'r premiwm yn ychwanegu pwysoliad o 0.5 at yr uned fuddsoddi a ddefnyddir yn y premiymau pynciau drud a chost uwch ar gyfer modiwlau FT UG a wneir trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysra ar gyfer y premiymau hyn (gweler cylchlythyr CCAUC [W23/08HE](#)). Caiff y dyraniadau i bob darparwr, yn seiliedig ar gyfartaledd data gwerth credydau HESA ym mlwyddyn academiaidd 2023/24 a blwyddyn academiaidd 2024/25, eu nodi yn Nhabl 3.

Buddsoddiad mewn addysgu sy'n seiliedig ar greddyau – darpariaeth israddedig ran-amser (PT UG)

99. Rydym yn parhau i gyllido darpariaeth PT UG ym mlwyddyn academiaidd 2026/27 trwy'r dull buddsoddi mewn addysgu sy'n seiliedig ar greddyau, fel ym mlwyddyn academiaidd 2025/26.
100. Cafodd buddsoddiad sy'n seiliedig ar greddyau ar gyfer addysgu PT UG ei bennu gan ddefnyddio'r dull cyllid addysgu presennol. Fe sefydlwyd hwn ym 1999 ac fe'i diwygiwyd ym mlwyddyn academiaidd 2011/12 gydag elfen adennill y dull yn cael ei thynnu allan.
101. Mae dyraniadau buddsoddi'n seiliedig ar gelloedd cyllido. Mae cell gyllido'n cyfeirio at:
- Lefel: israddedig (heb gynnwys breinio); israddedig trwy drefniant breinio;
 - Dull: rhan-amser; a hefyd
 - Categori pynciau academiaidd (ASC): ASCs 1a i 11b ac ASC 11a, addysg gychwynnol athrawon (AGA) yn arwain at statws athro cymwysedig (SAC), wedi'i rannu rhwng cynradd ac uwchradd.
102. Caiff y dyraniad buddsoddi ym mhob cell ei sefydlu trwy luosi nifer y gwerthoedd credydau wedi'u cyllido yn y gell honno â'n huned fuddsoddi safonol ar gyfer y categori pynciau academiaidd.
103. Caiff yr unedau buddsoddi fesul gwerth credyd ar gyfer pob categori pynciau academiaidd ar gyfer PT UG ym mlwyddyn academiaidd 2026/27 eu nodi yn **Atodiad B**.
104. Caiff cyfanswm y buddsoddiad PT UG a dyraniadau gwerthoedd credydau wedi'u cyllido ym mhob cell ar gyfer pob darparwr eu dangos yn **Atodiad C**.

105. Caiff niferoedd craidd PT UG eu pennu gan y model buddsoddi. Fe'u cyfrifir gan ddefnyddio credydau wedi'u cyllido o flwyddyn academaidd 2025/26 a'u dyrannu i gelloedd buddsoddi gan ddefnyddio dosbarthiad credydau wedi'u cyllido ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 a gwerthoedd credydau wedi'u recriwtio ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25. Daw data recriwtio o arolwg monitro diwedd blwyddyn (EYM) ar gyfer cofrestrïadau addysg uwch blwyddyn academaidd 2024/25 (cyhoeddiad Medr, [Medr/2025/07](#)).
106. Fel rhwng blwyddyn academaidd 2019/20 a blwyddyn academaidd 2025/26, mae twf wedi'i gynnwys yn y model sy'n seiliedig ar gredydau trwy drosi'r holl gredydau ffioedd-yn-unig yn gredydau wedi'u cyllido. Credydau ffioedd-yn-unig yw lle mae darparwyr wedi recriwtio credydau y tu hwnt i'r rhai a oedd wedi'u cyllido yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn darparu ar gyfer twf mewn credydau wedi'u cyllido i rai darparwyr ac mae hyn wedi'i gynnwys yn **Atodiad C**. Mae Tabl 2 yn dangos y dadansoddiad rhwng buddsoddiad craidd a buddsoddiad twf.

Buddsoddiad premiwm – darpariaeth israddedig ran-amser

107. Caiff y premiwm mynediad a chadw a'r premiwm cyfrwng Cymraeg eu dyrannu ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser (PT UG) ac fe'u nodir yn Nhabl 2.
- Premiwm cyfrwng Cymraeg
 - Mae'r premiwm cyfrwng Cymraeg yn ychwanegu pwysoliad o 0.5 at uned gyllido blwyddyn academaidd 2026/27 ar gyfer modiwlau a wneir trwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff y dyraniadau i bob darparwr, yn seiliedig ar gyfartaledd data gwerthoedd credydau HESA blwyddyn academaidd 2023/24 a blwyddyn academaidd 2024/25, eu nodi yn Nhabl 2.
 - Premiwm mynediad a chadw
 - Mae dwy elfen i ddyraniad y premiwm mynediad a chadw ar gyfer darpariaeth PT UG. O ran mynediad, dyfernir premiwm mewn perthynas â myfyrwyr o ardaloedd â chyfranogiad isel mewn addysg uwch, fel y'u diffinnir gan ddwy gwintel isaf mesur addysg uwch oedolion y DU a gyfrifir o ddata cyfrifiad 2021; a myfyrwyr o ardaloedd amddifadus, fel y'u diffinnir gan ddau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (MALIC19). Gall myfyrwyr unigol ddenu mwy nag un premiwm.
 - Mae'r ail elfen wedi'i bwriadu i wobrwyo cadw. Rydym wedi dyrannu cyfradd fuddsoddi uwch mewn perthynas â myfyrwyr sy'n parhau nag mewn perthynas â myfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf. Dyrennir y gyfradd uwch hefyd mewn perthynas â myfyrwyr ar gyrsiau un flwyddyn sy'n cwblhau'n llawn neu'n rhannol.
 - I gydnabod bod cyfran y myfyrwyr ehangu mynediad mewn darparwr yn effeithio ar y galw am gymorth y mae ei angen, mae darparwyr wedi cael eu gwahanu'n ddau fand gan ddibynnu ar eu gweithgarwch ym mlwyddyn academaidd 2024/25 i recriwtio o ddau gwintel isaf MALIC19. Mae darparwyr lle mae myfyrwyr o ardaloedd amddifadus yn rhoi cyfrif am fwy na 35 y cant o fyfyrwyr sy'n hangu o Gymru ym mand 1 ac yn cael premiwm uwch, ac mae'r rhai lle mae myfyrwyr o ardaloedd amddifadus yn rhoi cyfrif am 35 y cant neu lai ym mand 2 ac yn cael premiwm is.
 - Cafodd y fethodoleg ar gyfer y premiwm mynediad a chadw ei hadolygu fel rhan o gam cyntaf adolygiad CCAUC o gyllid addysgu. Fe arweiniodd yr

adolygiad at newidiadau a amlinellwyd yng nghylchlythyr CCAUC [W22/10HE](#), a roddwyd ar waith gyntaf ym mlwyddyn academiaidd 2022/23. Manylir ar ddyraniadau sefydliadau unigol ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026/27 yn Nhabl 2.

Buddsoddiad premiwm – pob dull a lefel

108. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026/27, dyrennir y premiwm anabledd ar gyfer pob dull a lefel astudio. Mae hyn yn golygu parhad y buddsoddiad ychwanegol er mwyn cynnwys pob dull a lefel astudio, a roddwyd ar waith ym mlwyddyn academiaidd 2020/21 (cylchlythyr CCAUC [W19/33HE](#)).
109. Dyrennir cyfradd fuddsoddi fesul myfyriwr cymwys, sef y myfyrwyr hynny y cofnodwyd eu bod yn cael y Lwfans Myfyrwyr Anabl ar gofnod myfyrwyr HESA, ac y mae'r gofyniad i astudio o leiaf 10 gwerth credyd (neu 8.3% CagALI ar gyfer myfyrwyr PGR) yn berthnasol iddynt. Ym mlwyddyn academiaidd 2026/27, £425 yw'r gyfradd fesul myfyriwr. Caiff y dyraniadau eu nodi yn Nhabl 2 ar gyfer darpariaeth ran-amser ac ôl-radd ac yn Nhabl 3 ar gyfer darpariaeth FT UG.

Buddsoddiad y pen – pob dull a lefel a addysgir

110. Dyrennir y swm y pen ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026/27 yn ôl cyfradd o £4.72 y myfyriwr ar gyfer pob dull a lefel astudio a addysgir. Mae hyn yn sicrhau buddsoddiad ar ryw lefel ar gyfer yr holl fyfyrwyr a addysgir. Pennwyd taliadau ar sail cofrestriadau cyllidawdy yn ôl data cofnod myfyrwyr HESA ym mlwyddyn academiaidd 2024/25, yn amodol ar ofyniad i astudio o leiaf 10 gwerth credyd. Caiff swm y cyllid y pen a ddyrennir i bob darparwr ei ddangos yn Nhabl 2 ar gyfer darpariaeth ran-amser ac ôl-radd ac yn Nhabl 3 ar gyfer darpariaeth FT UG.
111. Dangosir cyllid y pen ar gyfer lleoedd meddygol ychwanegol ar wahân yn Nhabl 5 ac nid yw wedi'i gynnwys yn Nhabl 3. Mae paragraffau 123-128 isod yn darparu rhagor o wybodaeth am y lleoedd meddygol ychwanegol.

Buddsoddiad mewn addysgu ar y cyfan

112. Mae Tablau 2 a 3 yn dangos y buddsoddiad mewn addysgu ar y cyfan. Mae Tabl 2 yn dangos buddsoddiad ar gyfer darpariaeth addysgu seiliedig-ar-gredydau PT UG ynghyd â buddsoddiad y pen a phremiwm ar gyfer darpariaeth ran-amser ac ôl-radd. Mae Tabl 3 yn dangos buddsoddiad y pen a phremiwm ar gyfer darpariaeth FT UG.

Hepgor ffioedd rhan-amser

113. Mae ein cynllun hepgor ffioedd israddedig rhan-amser (PT UG) yn darparu buddsoddiad i ddarparwyr sy'n hepgor ffioedd ar gyfer myfyrwyr PT UG sy'n astudio llai na 30 o gredydau (h.y. llai na 25% CagALI), sy'n bodloni meini prawf cymhwysra'r cynllun. Mae disgwyl i gyhoeddiad y cynllun ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026/27 gael ei ryddhau yn haf 2026.
114. Darperir £200k i hybu twf yn niferoedd y myfyrwyr rhan-amser a chaniatáu i fyfyrwyr rhan-amser gael mynediad at addysg uwch a chael budd ohoni lle mae eu dwyster astudio'n llai na'r hyn a gwmpesir gan drefniadau cymorth i fyfyrwyr.

Buddsoddiad strategol yn y Brifysgol Agored yng Nghymru

115. Ym mlwyddyn academiaidd 2026/27, fel yn y flwyddyn flaenorol, rydym wedi dyrannu buddsoddiad strategol gwerth £605k i'r Brifysgol Agored yng Nghymru, yr un swm ag ym mlwyddyn academiaidd 2025/26.
116. Mae Tabl 4 yn cynnwys y buddsoddiad strategol ar gyfer y Brifysgol Agored yng Nghymru.

Buddsoddiad yn elfen berfformio Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

117. Dyrennir buddsoddiad yn yr elfen berfformio ar gyfer darpariaeth conservatoire i Brifysgol De Cymru ar gyfer darpariaeth yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, sy'n rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru. Darperir dyraniad o £805k i gefnogi datblygiadau strategol yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn ychwanegol at y buddsoddiad yn yr elfen berfformio a ddarperir trwy'r premiwm pynciau drud a ddangosir yn Nhabl 3. Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2025/26, fe gynyddwyd y buddsoddiad yn ystod y flwyddyn i £805k, i ystyried hybiau rhanbarthol, ac felly mae swm y buddsoddiad strategol hwn yr un faint â'r llynedd.

Buddsoddiad mewn ymchwil ac addysgu ar y cyfan

118. Mae Tabl 4 yn nodi'r dyraniadau i bob darparwr ar gyfer buddsoddiad mewn addysgu, ymchwil ac arloesi ac yn darparu'r gymhariaeth ar y cyfan â'r buddsoddiad ym mlwyddyn academiaidd 2025/26.
119. Mae'r newid mewn buddsoddiad ar y cyfan o un flwyddyn i'r llall ar gyfer prifysgolion yn amrywio o ostyngiad o 6.7% i gynnydd o 6.4%, gyda phob prifysgol ond un yn cael cynnydd mewn buddsoddiad. Mae'r ystod o wahaniaethau mewn buddsoddiad i'w phriodoli'n bennaf i newidiadau gwahanol o ran recriwtio myfyrwyr sy'n gymwys i gael eu cynnwys mewn dyraniadau buddsoddi, a hefyd y cynnydd mewn buddsoddiad RWIF a buddsoddiad hyfforddiant PGR ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026/27.
120. Nid yw ffigyrau blwyddyn academiaidd 2026/27 yn Nhabl 4 yn cynnwys manylion y buddsoddiad ar gyfer lleoedd meddygol ychwanegol. Darperir y dyraniadau hyn yn Nhabl 5.
121. Nid yw'r dyraniadau hyn yn ystyried unrhyw addasiadau cyllido posibl yn ystod y flwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 y gallai Llywodraeth Cymru eu cymhwyso. Bydd unrhyw addasiadau buddsoddi o'r fath yn arwain at ddiwygio'r dyraniadau unigol. Hefyd, os yw cyllideb blwyddyn ariannol 2027-28 yn wahanol i'r swm a dybiwyd ar gyfer y dyraniad hwn, bydd effaith ar yr adnoddau a fydd ar gael ym mlwyddyn academiaidd 2026/27 a'r dyraniadau cysylltiedig.
122. Er mwyn hwyluso peth hyblygrwydd a chydweithio, cynigir y cyfle i ddarparwyr aiddosbarthu credydau wedi'u cyllido ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser rhwng darparwyr ar sail niwtral o ran cost. Os bydd darparwyr yn dymuno arfer yr opsiwn hwn, dylent ein hysbysu ar y cyd ynghylch eu bwriadau erbyn 15 Medi 2026 trwy anfon neges e-bost i YstadegauAU@medr.cymru.

Lleoedd meddygol ychwanegol

123. O flwyddyn academaidd 2018/19 fe gyllidwyd lleoedd meddygol ychwanegol yng Nghymru, cyfanswm o 40 o leoedd y garfan – 20 yr un ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe gyda charfannau pellach yn dechrau mewn blynyddoedd diweddarach. Blwyddyn academaidd 2026/27 yw'r flwyddyn olaf y ceir lleoedd a gyllidir o'r fath ym Mhrifysgol Caerdydd gan bod darpariaeth i'w chael yng Ngogledd Cymru bellach gydag Ysgol Feddygol Gogledd Cymru ym Mhrifysgol Bangor.
124. O ganlyniad i Covid-19, ar sail anghylchol, fe ddyrannwyd lleoedd meddygol a deintyddol ychwanegol. Mae'r rhain i gyd wedi gweithio eu ffordd drwy'r system erbyn hyn ac felly nid ydynt yn cael eu cynnwys mwyach yn y lleoedd na'r ffigyrau buddsoddi.
125. Fe ddyrannwyd lleoedd pellach ar sail gylchol. Roedd carfan ddechreuol ychwanegol o 25 o leoedd ym Mhrifysgol Abertawe ym mlwyddyn academaidd 2021/22 ac un arall ym mlwyddyn academaidd 2022/23, gan arwain at 200 o ddechreuwyr newydd a myfyrwyr yn parhau yn Abertawe ym mlwyddyn academaidd 2026/27. Nid oes unrhyw leoedd cylchol ychwanegol mwyach ym Mhrifysgol Caerdydd ym mlwyddyn academaidd 2026/27.
126. Fe ddechreuodd carfan gyntaf Ysgol Feddygol Gogledd Cymru ym Mhrifysgol Bangor ym mlwyddyn academaidd 2024/25, gyda 60 o newydd-ddyfodiaid ar y cwrs mynediad uniongyrchol pum mlynedd ac 20 o newydd-ddyfodiaid ar y cwrs mynediad graddedig pedair blynedd. Yn ogystal â'r myfyrwyr hynny sy'n parhau i mewn i flwyddyn academaidd 2026/27 a'r garfan newydd ym mlwyddyn academaidd 2026/27 sy'n dechrau, fe ddechreuodd 10 newydd-ddyfodiad ychwanegol ar y llwybr mynediad uniongyrchol pum mlynedd ym mlwyddyn academaidd 2025/26 ac ym mlwyddyn academaidd 2026/27.
127. Caiff buddsoddiad ar gyfer y lleoedd hyn ym mlwyddyn academaidd 2026/27, sy'n cynnwys buddsoddiad yn y premiwm pynciau drud (ESP) ar gyfer rhan glinigol y cwrs, y premiwm pynciau cost uwch (HCSP) ar gyfer rhan anghlinigol y cwrs a buddsoddiad y pen, ei ddangos yn Nhabl 5, ac nid yw wedi'i gynnwys yn Nhabl 3, gan bod y buddsoddiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 ar gyfer y lleoedd meddygol ychwanegol yn amodol ar ddyraniad mewn llythyr cyllid ar wahân gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyfraddau buddsoddi'n aros ar lefelau blwyddyn academaidd 2023/24. Golyga hyn fod lleoedd ychwanegol yn cael eu cyllido yn ôl cyfraddau uwch o ran buddsoddiad premiwm a buddsoddiad y pen na dyraniadau craidd y premiwm pynciau drud a'r premiwm pynciau cost uwch ym mlwyddyn academaidd 2026/27.
128. Mae'r cyllid hwn yn ddangosol nes caiff ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru.

Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) sy'n arwain at statws athro cymwysedig (SAC) – buddsoddiad mewn lleoliadau

129. Mae buddsoddiad ychwanegol ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) sy'n arwain at statws athro cymwysedig (SAC) – lleoliadau wedi cael ei gynnwys am y tro cyntaf ym mlwyddyn academaidd 2026/27. Cyllid gan Lywodraeth Cymru i brifysgolion â darpariaeth AGA (SAC) yw hwn, sydd i'w ddefnyddio tuag at gost

lleoliadau. Mae'r dyraniadau'n seiliedig ar nifer y myfyrwyr AGA (SAC) israddedig a thystysgrif addysg i raddedigion (TAR) ar lefel uwchradd a chynradd a ddechreuodd neu a barhaodd ym mlwyddyn academaidd 2024/25, a gymerwyd o gofnod myfyrwyr HESA blwyddyn academaidd 2024/25, wedi'i gapio ar y targedau derbyn ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 a blynyddoedd blaenorol. Ceir rhagor o wybodaeth am dargedau derbyn gan [Gyngor y Gweithlu Addysg](#). £2,500,000 yw cyfanswm y buddsoddiad ac fe'i dangosir yn Nhabl 6.

Cyllidebau wedi'u targedu

130. Mae cyllidebau wedi'u targedu'n cwmpasu buddsoddiadau sy'n ymateb i flaenoriaethau polisi penodol ac ymrwymadau Medr i weithgarwch ledled y DU. Pennwyd y gyllideb ar gyfer pob maes yn seiliedig ar ymrwymadau presennol ac ymrwymadau newydd a ddisgwylir.
131. Yn mlwyddyn academaidd 2025/26 cafodd nifer o linellau cyllidebau wedi'u targedu eu huno'n nifer lai o botiau strategol. Ym mlwyddyn academaidd 2026/27 bydd bron i hanner o'r llinellau cyllidebau wedi'u targedu hyn yn aros. Bydd y gweddill yn cael eu hymgorffori mewn cyllideb rhaglen ganolog neu eu huno mewn cronfa Llesiant Dysgwyr.
132. Fel ym mlwyddyn academaidd 2025/26 mae pob un o'r cyllidebau strategol lefel-uchel wedi cael eu cyfrifo trwy gyfuno llinellau cyllideb presennol.

Addysg bellach (Y gronfa Cymorth a Llesiant Dysgwyr)

133. Mae'r cyllidebau canlynol wedi cael eu huno ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 mewn cronfa Llesiant Dysgwyr fwy:
- i) Cronfa Adferiad a Chynnydd Dysgwyr
 - ii) Urddas Mislif
 - iii) Iechyd meddwl a Llesiant
 - iv) Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn a
 - v) Cymorth Dysgu Ychwanegol.
134. £49.840m fydd y gyllideb hon.
135. Byddir yn caniatáu hyblygrwydd i ddarparwyr rhwng pob un o'r llinellau hynny sicrhau'r defnydd gorau o'r cyllid i gefnogi Llesiant Dysgwyr. Bydd rhagor o ganllawiau ynghylch y gronfa Llesiant Dysgwyr yn cael eu rhannu trwy gyhoeddiad ar wahân.

Buddsoddiad Cymorth Dysgu Ychwanegol

136. Mae buddsoddiad mewn Cymorth Dysgu Ychwanegol (CDY) yn galluogi darparwyr addysg bellach yng Nghymru i gyflawni eu cyfrifoldebau dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Cod ADY trwy sicrhau bod dysgwyr yn cael y cymorth personol sy'n ofynnol o fewn y system ADY unedig. Mae'n ategu dyraniadau craidd i helpu i ariannu costau ychwanegol cefnogi unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion o ran cymorth, pa un a ydynt wedi'u cofrestru ar raglenni prif ffrwd ynteu rhaglenni ar wahân a hynny ar sail amser llawn neu ran-amser.
137. Mae buddsoddiad mewn Cymorth Dysgu Ychwanegol yn dosbarthu cyfanswm y gyllideb CDY yn gymesur â chyfran pob coleg o gyllid prif ffrwd. Mae hyn yn cydnabod, lle mae SAB yn profi cynnydd/gostyngiad mewn dysgwyr, ei bod hi'n debygol y bydd anghenion o ran CDY yn cynyddu/lleihau yn gymesur â hynny.
138. O gyfanswm y gyllideb CDY, mae £30,000 yn cael ei ddal yn ganolog i gefnogi'r Rhwydwaith Sgiliau Byw yn Annibynnol a hwylusir gan Colegau Cymru, ac mae

£100,000 arall yn cael ei gadw i ddarparu cyllid atodol (Elfen 3) sy'n darparu cymorth ychwanegol, wedi'i aseinio'n unigol ar gyfer dysgwyr o Gymru sy'n astudio mewn SAB yn Lloegr.

| | Dyraniad CDY ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26* | Cyfanswm dyraniad blwyddyn academaidd 2026/27 £ | Gwahaniaeth o ddyraniad blwyddyn academaidd 2025/26 £ | Gwahaniaeth canrannol % |
|--------------------------|--|---|---|-------------------------|
| Addysg Oedolion Cymru | 378,592 | 391,732 | 13,140 | 3.47 |
| Coleg Penybont | 1,017,141 | 1,066,111 | 48,970 | 4.81 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 2,486,295 | 2,558,705 | 72,410 | 2.91 |
| Coleg Cambria | 2,440,431 | 2,607,521 | 167,090 | 6.85 |
| Coleg Gwent | 2,848,105 | 2,957,320 | 109,215 | 3.83 |
| Coleg Sir Gâr | 1,306,494 | 1,341,108 | 34,614 | 2.65 |
| Coleg Y Cymoedd | 2,128,167 | 2,213,526 | 85,359 | 4.01 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 1,735,405 | 1,808,793 | 73,388 | 4.23 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 2,195,553 | 2,331,423 | 135,870 | 6.19 |
| Grŵp Colegau NPTC | 1,508,718 | 1,571,257 | 62,539 | 4.15 |
| Coleg Sir Benfro | 786,316 | 814,036 | 27,720 | 3.53 |
| Coleg Catholig Dewi Sant | 462,896 | 485,323 | 22,427 | 4.84 |
| Y Coleg Merthyr Tudful | 646,887 | 694,145 | 47,258 | 7.31 |
| | 19,941,000 | 20,841,000 | 900,000 | 4.51 |

* Fe gadarnhaodd Medr £3.2m yn ychwanegol o gyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol (CDY) ar gyfer sefydliadau AB yn 2025/26 i roi cymorth i roi mesurau diwygio'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar waith, gan gynyddu cyfanswm y cyllid CDY i £19.941m. Roedd y cyllid ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Awst 2025 a 31 Gorffennaf 2026 ac fe'i talwyd fel un rhandaliad ym mis Rhagfyr 2025, yn unol â chanllawiau cyllido presennol ar gyfer CDY.

139. Bydd y Cyllid mewn Cymorth Dysgu Ychwanegol yn cael ei dalu mewn dau randaliad cyfartal o 50% ym mis Hydref 2026 a 50% ym mis Chwefror 2027.

Addysg bellach (Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn)

140. Mae'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF) yn rhoi cymorth ariannol wedi'i dargedu i ddysgwyr cymwys a allai ei chael hi'n anodd cael mynediad at addysg bellach neu barhau â'u haddysg bellach fel arall oherwydd caledi ariannol. Ei diben yw lleihau rhwystrau trwy helpu gyda chostau hanfodol megis offer, gofal plant, cludiant neu dreuliau angenrheidiol eraill fel bod dysgwyr yn gallu parhau i ymgysylltu â'u hastudiaethau. Mae'r gronfa'n blaenoriaethu'r rhai sy'n wynebu cyfyngiadau ariannol sylweddol, gan gynnwys dysgwyr o aelwydydd incwm isel, y rhai sy'n profi anhawster ariannol annisgwyl, ac unigolion â heriau ychwanegol megis anableded neu gyfrifoldebau gofalu. Caiff pob cais ei asesu'n unigol i sicrhau bod cymorth yn cael ei ddosbarthu'n deg ac yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru.

141. Dyrennir y Gronfa Ariannol Wrth Gefn o gyfanswm cyllideb y cytunwyd a gytunwyd gan Fwrdd Medr, gyda dyraniadau wedi'u diogelu'n cael eu neilltuo yn gyntaf, yna gweddill yr arian yn cael ei rannu rhwng niferoedd dysgwyr (25%) a dangosyddion amddifadedd (75%). Cyfrifir dyraniadau yn gymesur gan ddefnyddio'r data dysgwyr cyhoeddedig diweddaraf (amser llawn a rhan-amser) a nifer y dysgwyr sy'n hawlio

Lwfans Cynhaliath Addysg a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, gyda'r ffigyrau terfynol yn cael eu talgrynnu i'r bunt agosaf. £7,280,000.00 yw cyfanswm y dyraniad ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27; y gwahaniaeth o flwyddyn academaidd 2025/26 yw £400,000.

| | Dyraniadau Gwreiddiol blwyddyn academaidd 2025/26 £ | Dyraniadau wedi'u diogelu £ | Cyfanswm dyraniadau blwyddyn academaidd 2026/27 £ | Gwahaniaeth o 2025/26 £ | Gwahaniaeth Canrannol % |
|--|---|-----------------------------|---|-------------------------|-------------------------|
| Addysg Oedolion Cymru | 62,184 | 62,184 | 62,184 | 0.00 | 0.00 |
| Coleg Penybont | 350,417 | 0.00 | 381,857 | 31,440 | 8.97 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 945,188 | 0.00 | 970,363 | 25,175 | 2.66 |
| Coleg Cambria | 639,724 | 0.00 | 718,076 | 78,352 | 12.25 |
| Coleg Gwent | 1,010,068 | 0.00 | 1,056,786 | 46,718 | 4.63 |
| Coleg Sir Gâr | 491,172 | 0.00 | 486,576 | (4,596) | -0.94 |
| Coleg Y Cymoedd | 726,839 | 0.00 | 770,607 | 43,768 | 6.02 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 673,255 | 0.00 | 727,140 | 53,885 | 8.00 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 730,344 | 0.00 | 756,684 | 26,340 | 3.61 |
| Grŵp NPTC Group | 517,306 | 0.00 | 549,154 | 31,848 | 6.16 |
| Coleg Sir Benfro | 256,207 | 0.00 | 246,113 | (10,094) | -3.94 |
| Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant | 200,961 | 0.00 | 229,008 | 28,047 | 13.96 |
| Y Coleg Merthyr Tudful | 231,700 | 0.00 | 280,817 | 49,117 | 1.20 |
| Y Brifysgol Agored | 33,635 | 33,635 | 33,635 | 0.00 | 0.00 |
| Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | 11,000 | 11,000 | 11,000 | 0.00 | 0.00 |
| | 6,880,000 | 106,819 | 7,280,000 | 400,000 | 5.81 |

142. Bydd 40% o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn cael ei dalu ym mis Awst 2026, 30% yn cael ei dalu ym mis Rhagfyr 2026 a 30% yn cael ei dalu ym mis Ebrill 2027.

Urddas mislif

143. Mae buddsoddiad urddas mislif yn cynorthwyo sefydliadau addysg bellach i ddarparu mynediad rhad-ac-am-ddim ac urddasol at gynhyrchion mislif ar gyfer dysgwyr ac aelodau o gymuned y coleg, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i unigolion o aelwydydd incwm isel. Mae buddsoddiad wedi'i fwriadu'n bennaf i brynu a dosbarthu cynhyrchion mislif, gyda therfynau diffiniedig ar gyfer gweinyddu cysylltiedig, gweithgarwch hyfforddi ac ymwybyddiaeth, a gofyniad i flaenoriaethu opsiynau amgylcheddol gynaliadwy.

144. Cyfrifir dyraniadau o gyfanswm y gyllideb y cytunwyd arni gan Medr ac fe'u dosberthir i sefydliadau yn unol â'u buddsoddiad prif ffrwd ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod. Mae gwariant yn amodol ar fonitro ac adroddiadau diwedd blwyddyn trwy drefniadau'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

| | Terfynol blwyddyn academaidd 2025/26 £ | Terfynol blwyddyn academaidd 2026/27 £ | Gwahaniaeth o flwyddyn academaidd 2025/26 £ | Gwahaniaeth canrannol % |
|--------------------------|--|--|---|-------------------------------|
| Addysg Oedolion Cymru | 11,550 | 11,834 | 284 | 2.40 |
| Coleg Penybont | 25,716 | 25,785 | 69 | 0.27 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 61,583 | 60,727 | (856) | -1.41 |
| Coleg Cambria | 61,458 | 62,642 | 1,184 | 1.89 |
| Coleg Gwent | 71,220 | 70,784 | (436) | -0.62 |
| Coleg Sir Gâr | 33,680 | 33,109 | (571) | -1.72 |
| Coleg Y Cymoedd | 51,579 | 51,302 | (277) | -0.54 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 42,560 | 42,354 | (206) | -0.49 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 55,723 | 56,541 | 818 | 1.45 |
| Grŵp Colegau NPTC | 38,419 | 38,327 | (92) | -0.24 |
| Coleg Sir Benfro | 20,193 | 19,981 | (212) | -1.06 |
| Coleg Catholig Dewi Sant | 10,806 | 10,758 | (48) | -0.45 |
| Y Coleg Merthyr Tudful | 15,513 | 15,856 | 343 | 2.16 |
| | 500,000 | 500,000 | 0 | 0.13 |

145. Bydd Urddas Mislif i gyd yn cael ei dalu mewn taliad untro ym mis Awst 2026.

Iechyd meddwl a llesiant

146. Mae buddsoddiad iechyd meddwl a llesiant yn galluogi sefydliadau addysg bellach ac uwch i ddarparu gweithgareddau ac ymyriadau sy'n cefnogi iechyd meddwl a llesiant staff a dysgwyr.

147. Bydd dyraniadau unigol sefydliadau addysg bellach ac uwch a buddsoddiad yn y prosiect cenedlaethol yn cael eu cynnwys mewn canllawiau yn y dyfodol a byddant yn amodol ar adroddiadau monitro.

148. Mae'r gyllideb wedi'i thargedu'n ymgorffori'r dyraniadau presennol canlynol:

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Cyllideb £ miliwn | Dyraniadau sefydliadol |
|-----------------------------------|--|----------------------|-------------------------------------|
| Llesiant ac iechyd addysg bellach | Fe'i dyrennir i gefnogi llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl mewn AB | 4.050 | Yn amodol ar gyhoeddiad diweddarach |
| Llesiant ac iechyd addysg uwch | Fe'i dyrennir i gefnogi llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl mewn AU. | 4.350 | Yn amodol ar gyhoeddiad diweddarach |

| | | | |
|---|---|-------|-------------------------------------|
| Prosiect(au) llesiant ac iechyd meddwl (AU ac AB) | Fe'i dyrennir i gefnogi prosiectau llesiant ac iechyd meddwl cenedlaethol | 2.026 | Yn amodol ar gyhoeddiad diweddarach |
|---|---|-------|-------------------------------------|

149. Ar gyfer blwyddyn academiaidd bydd 65% yn cael ei dalu ym mis Mawrth/Ebrill 2027 a 35% yn cael ei dalu ym mis Gorffennaf/Awst 2027, yn amodol ar adroddiadau monitro.

Adferiad a Chynnydd Dysgwyr (LRP)

150. Buddsoddir yn Adferiad a Chynnydd Dysgwyr i alluogi chweched dosbarth awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach i ddarparu oriau dysgu ychwanegol ar gyfer dysgwyr. Mae'r buddsoddiad ychwanegol hwn yn cydnabod y bydd dysgwyr wedi profi tarfu o ganlyniad i bandemig Covid-19. Gan hynny, gall fod ar ddysgwyr angen rhagor o gymorth a chanllawiau i helpu i ddiogelu eu llesiant, datblygu eu cydnerthedd a llwyddo i ennill eu cymwysterau.

151. Mae dyraniadau'n aros yr un fath ag yn 2025/26 ac fe'u dangosir yn y tabl isod.

| Coleg | Blwyddyn academiaidd 2026/27 £ |
|--------------------------|-----------------------------------|
| Coleg Penybont | 419,586 |
| Coleg Sir Gâr | 516,455 |
| Coleg Gwent | 1,165,073 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 946,392 |
| Y Coleg Merthyr Tudful | 275,700 |
| Coleg Sir Benfro | 316,061 |
| Coleg Catholig Dewi Sant | 202,054 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 661,731 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 858,871 |
| Coleg Cambria | 1,023,827 |
| Coleg y Cymoedd | 776,159 |
| Grŵp Colegau NPTC | 598,439 |
| Addysg Oedolion Cymru | 0 |
| Cyfanswm | 7,760,348 |

| Awdurdod lleol | Blwyddyn academiaidd 2026/27 £ |
|----------------------------------|-----------------------------------|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 70,720 |
| Cyngor Gwynedd | 95,093 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 150,000 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 105,669 |
| Cyngor Sir y Fflint | 128,971 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 34,816 |
| Cyngor Sir Powys | 123,293 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 91,296 |

| | |
|---|------------------|
| Cyngor Sir Penfro | 73,319 |
| Cyngor Sir Gâr | 175,865 |
| Cyngor Dinas a Sir Abertawe | 166,473 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 52,319 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 204,086 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 200,394 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 286,917 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 96,704 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 13,462 |
| Cyngor Sir Fynwy | 107,137 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 203,871 |
| Cyngor Caerdydd | 422,256 |
| Cyfanswm | 2,802,661 |

| | |
|---------------------------------|--------------------|
| Cyfanswm Buddsoddiad LRP | £10,563,009 |
|---------------------------------|--------------------|

152. Bydd Adferiad a Chynnydd Dysgwyr i gyd yn cael ei dalu mewn dau randaliad – 63% ym mis Awst 2026 a 37% ym mis Ebrill 2027.

Mynediad a llesiant

153. Mae'r gyllideb wedi'i thargedu'n ymgorffori'r dyraniadau presennol canlynol:

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Cyllideb £ miliwn | Dyraniadau sefydliadol |
|---|---|-------------------|-------------------------------------|
| Ymgyrhaedd yn Ehangach (AU) | Fe'i dyrennir i dair phartneriaeth ranbarthol (sy'n cynnwys prifysgolion, ysgolion a cholegau) ar gyfer gweithgarwch i gynyddu cyfranogiad mewn AU o blith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac sy'n flaenoriaeth trwy godi dyheadau addysgol a sgiliau. | 2.000 | Yn amodol ar gyhoeddiad diweddarach |
| Cymorth mentora (AU) | Fe'i dyrennir i Ymgyrhaedd yn Ehangach ar gyfer cynllun sy'n galluogi myfyrwyr AU i fentora dysgwyr yn y chweched dosbarth mewn ysgolion ac mewn colegau. | 0.500 | Yn amodol ar gyhoeddiad diweddarach |
| Cydraddoldeb hil (AU ac AB) | Mae'n cynorthwyo darparwyr trydyddol â gweithgarwch sydd wedi'i fwriadu i greu Cymru wrth-hiliol. | 1.500 | Yn amodol ar gyhoeddiad diweddarach |
| Pontio Blwyddyn 11 (AB a chweched dosbarth mewn ysgolion) | Defnyddir y buddsoddiad hwn i hybu cydweithio rhwng darparwyr ôl-16 i gynyddu ymwybyddiaeth o'r holl lwybrau dysgwyr sydd ar gael cyn bod pobl ifanc 16 oed yn gwneud penderfyniad ynglŷn â'u cam nesaf mewn addysg | 3.000 | Yn amodol ar gyhoeddiad diweddarach |
| Y gronfa helaethu | Mae'r buddsoddiad hwn yn cefnogi cydweithio ar draws sefydliadau addysg uwch i rannu arfer da ym | 0.025 | Amh |

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Cyllideb £ miliwn | Dyraniadau sefydliadol |
|-----------------|--|-------------------|------------------------|
| | maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | | |
| Cyfanswm | | 7.025 | |

154. Yn flaenorol, mae'r prosiectau hyn wedi cael eu cyllido ar gyfanswm o £7.025 miliwn. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 rydym yn cynnal lefelau buddsoddi yn unol â'r gyllideb arian gwastad a ddarperir.

Cyflogadwyedd a sgiliau

155. Mae'r gyllideb wedi'i thargedu'n ymgorffori'r dyraniadau presennol canlynol:

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Cyllideb £ miliwn | Dyraniadau sefydliadol |
|---|---|-------------------|-------------------------------------|
| Cymorth Cyflogadwyedd Wedi'i Dargedu (AU) | Mae'n galluogi darparwyr addysg uwch i roi cymorth cyflogadwyedd seiliedig-ar-fyfyrrwyr i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a/neu o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Mae gweithgarwch yn canolbwyntio ar fyfyrwyr sydd bellaf o'r farchnad lafur, i helpu i'w harfogi i gyflawni canlyniad cadarnhaol pan fyddant yn graddio. | 2.000 | Yn amodol ar gyhoeddiad diweddarach |
| Biwro cyflogaeth (AB) | Mae'n cefnogi dysgwyr trwy roi cyngor a chanllawiau a datblygu sgiliau cyflogadwyedd a menter, gan amcanu at gyflawni canlyniadau cyflogaeth cadarnhaol i ddysgwyr trwy weithio gyda chyflogwyr yn y rhanbarth. | 0.960 | Yn amodol ar gyhoeddiad diweddarach |
| Cronfa datblygu cyflogadwyedd (AU/AB) | Mae'n cefnogi gweithgarwch ar draws y sector i wella sut y mae darparwyr yn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu paratoi i ymuno â'r gweithlu. | 0.045 | Yn amodol ar gyhoeddiad diweddarach |
| Cyfanswm | | 3.005 | |

156. Yn flaenorol, mae'r prosiectau hyn wedi bod yn cael eu cyllido ar gyfanswm o £3.005 miliwn. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 rydym yn cynnal lefelau buddsoddi yn unol â'r gyllideb arian gwastad a ddarperir.

Ymchwil ac arloesi

157. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27, £2,000,000 yw'r gyllideb wedi'i thargedu. Bydd hyn yn parhau i gyllido'r gweithgareddau presennol canlynol. Hefyd, bydd yn ei gwneud yn bosibl estyn gweithgareddau i ymgorffori rhannau o'r sector trydyddol y tu hwnt i brifysgolion ac i adeiladu ar gynlluniau peilot llwyddiannus.

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Cyllideb £ miliwn | Dyraniadau sefydliadol |
|---|---|-------------------|--|
| Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) (AU) | Cyfraniad Medr at gostau datblygu a rhedeg yr ymarfer cyfnodol ledled y DU gyfan i asesu ansawdd ymchwil. | 0.302 | Yn amodol ar ddyfarniad grant ar wahân |

| Gweithgaredd | Disgrifiad | Cyllideb £ miliwn | Dyraniadau sefydliadol |
|---|--|------------------------------|--|
